# Rheoliadau Ariannol

Fersiwn 2021

| Tabl cynnwys | Rheoliadau Ariannol |
|---|---|
| **Byrfoddau** | 3 |
| **Diffiniadau** | 3 |
| **Rheoli Fersiynau** | 3 |
| **Cyflwyniad** | 4 |
| **Adran 1 – Rheolaeth Ariannol** | |
| 1.1 Safonau Rheolaeth Ariannol | 5 |
| 1.2 Cofnodion ac adenillion cyfrifyddu | 5 |
| 1.3 Y Datganiad Cyfrifon Blynyddol | 6 |
| **Adran 2 – Cynllunio Ariannol** | |
| 2.1 Cynllunio Ariannol | 8 |
| 2.2 Rheolaeth Gyllidebol | 10 |
| 2.3 Rhaglen Gyfalaf | 13 |
| 2.4 Cynnal Mantolenni a Chronfeydd wrth Gefn | 15 |
| **Adran 3 – Rheoli Risg a Pharhad Busnes** | |
| 3.1 Rheoli Risg a Pharhad Busnes | 17 |
| 3.2 System Reoli Fewnol | 18 |
| 3.3 Gofynion Archwilio | 20 |
| 3.4 Atal Twyll a Llygredd | 24 |
| 3.5 Asedau | 25 |
| 3.6 Rheolaeth y Trysorlys a Threfniadau Bancio | 29 |
| 3.7 Staffio | 31 |
| 3.8 Cronfeydd Answyddogol a Gwirfoddol a Chronfeydd Ymddiriedolaeth | 32 |
| 3.9 Gweinyddu Eiddo Tystiolaethol a heb fod yn Dystiolaethol | 32 |
| 3.10 Anrhegion, Benthyciadau a Nawdd | 33 |
| **Adran 4 – Systemau a Phrosesau** | |
| 4.1 Systemau a Phrosesau – Cyflwyniad | 35 |
| 4.2 Incwm | 36 |
| 4.3 Archebu a Thalu am Waith, Nwyddau a Gwasanaethau | 37 |
| 4.4 Taliadau i Swyddogion, Staff, Gwirfoddolwyr ac Aelodau | 38 |
| 4.5 Trethiant | 39 |
| 4.6 Cardiau Credyd Corfforaethol | 40 |
| 4.7 Cardiau Prynu | 40 |
| 4.8 Cydnabyddiaethau | 41 |
| **Adran 5 – Trefniadau Gweithio ar y Cyd** | |
| 5.1 Trefniadau Gweithio ar y Cyd | 42 |
| 5.2 Nawdd allanol | 45 |
| R | 45 |

| Byrfoddau | |
|---|---|
| PG | Prif Gwnstabl |
| PSG | Prif Swyddog Gweithredol |
| CHTh | Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| CIPFA | The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy |
| PSA | Prif Swyddog Ariannol (SCHTh) |
| CCA | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (yr Heddlu) |
| FMCP | Cod Ymarfer Rheoli Ariannol y Swyddfa Gartref |
| Cod RhA CIPFA | Cod Rheoli Ariannol CIPFA |
| CCPH | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu |
| HGC | Heddlu Gogledd Cymru |
| CHTh | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| PSG | Prif Swyddog Gweithredol (o'r SCHTh) |
| SCHTh | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd |

| Diffiniadau | |
|---|---|
| Prif Swyddog Gweithredol (PSG) | Pennaeth staff cyflogedig a swyddog monitro ar gyfer y CHTh. |
| Prif Swyddog Cyllid (PSC) | Y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog S151) ar gyfer y CHTh. |
| Prif Swyddogion | Term casgliadol ar gyfer uwch swyddogion heddlu (rheng uwch-arolygydd ac uwch), y PSC, PSG a CCA. |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (CCA) | Y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog S151) ar gyfer y PG. |

| Rheoli Fersiynau | |
|---|---|
| Medi 2019 | 3.5.7 Lle dynodir nad oes bellach ddefnydd ar gyfer tir ac/neu eiddo, bydd y PG yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd yn awgrymu camau priodol. Gwaredir tir ac eiddo ar y telerau gorau, fel yr amlygir gan adroddiad gan syrfëwr sy'n Brisiwr cofrestredig gyda Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Os gwrthyd y cynnig uchaf, gwnaiff y CCA (yn dilyn cyfarwyddyd gan y PG) ymgynghori gyda'r PSC. Cofnodir holl warediadau asedau yn y gofrestr asedau neu'r rhestr eiddo fel sy'n briodol. |

# Rheoliadau Ariannol

CYFLWYNIAD

1.1 Mae ar unrhyw sefydliad mawr angen cyfres o reolau a rheoliadau clir ar gyfer rheoli ei weithdrefnau ariannol.

1.2 Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaeth y Swyddfa Gartref ryddhau'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol (FMCP) dan adran 17(6) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac adran 39 Deddf yr Heddlu 1996. Mae'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi codau ymarfer i bob Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl. Mae'r cod hwn yn rhan o fframwaith llywodraethu ariannol cynhwysfawr gwasanaeth yr heddlu sy'n cynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd. Yn ogystal, mae Cod Rheoli Ariannol CIPFA (Cod FM) yn darparu canllawiau ar gyfer rheolaeth ariannol dda a chynaliadwy mewn awdurdodau lleol, ac mae'n berthnasol i'r OPCC a'r Llu. Mae'r rhain wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Rheoliadau Ariannol hyn.

1.3 Esbonnir priod rolau'r PSC a'r CCA yn natganiad CIPFA ar Rôl Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl.

1.4 Mae rheolau a rheoliadau'n llywodraethu'r berthynas rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl mewn materion ariannol. Mae'r fframwaith rheolaeth ariannol yn cynnwys y canlynol:

- Y Llawlyfr Llywodraeth, sydd yn cynnwys:
  (a) Pennod 1: Cynllun Llywodraethu
  (b) Pennod 2: Cynllun Caniatâd
  (c) Pennod 3: Rheoliadau Ariannol
  (d) Pennod 4: Gorchmynion Sefydlog Contractau
- Unrhyw godau ymarfer, gweithdrefnau, canllaw, protocolau, llawlyfrau neu gyfarwyddiadau ariannol y gellid eu cyhoeddi neu eu cynnwys yn llyfrgell polisïau'r Heddlu.

1.4 Y CHTh fydd yn derbyn yr holl nawdd ariannol, gan gynnwys grant y llywodraeth a'r praesept a holl ffynonellau eraill o incwm perthnasol i blismona a lleihau trosedd. Rhaid i'r holl gyllid y bydd heddlu'n ei gael dod drwy'r CHTh. Mater i'r CHTh mewn ymgynghoriad â'r PG, neu yn unol â thelerau unrhyw grantiau, yw sut y dyrennir yr arian hwn. Bydd y Prif Gwnstabl yn rhoi cyngor proffesiynol ar y mater hwn.

1.5 Datblygwyd gweithdrefnau a chyfarwyddiadau Ariannol sy'n amlinellu trefniadau dydd i ddydd ar gyfer gweithrediad Cyfrifoldebau ariannol dirprwyedig a lefelau a chyfyngiadau'r ddirprwyaeth honno. Cydymffurfia'r rhain gydag egwyddorion a chyfyngiadau a ddisgrifir yn y Llawlyfr Llywodraethu.

1.6 Er mwyn cynnal busnes yn effeithiol rhaid sefydlu polisïau rheolaeth ariannol cadarn a

rhaid glynu'n gaeth atynt. Rhan o'r broses hon yw mabwysiadu a gweithredu Rheoliadau Ariannol. Lluniwyd y Rheoliadau a gynhwysir yma mewn modd sy'n sicrhau yr ymgymerir â materion ariannol yn gywir ac mewn cydymffurfiad â'r holl ofynion angenrheidiol.

1.7 Wrth weithredu'r rheoliadau ariannol hyn bydd disgwyl i staff a swyddogion dalu sylw llawn i ddarpariaethau'r holl ddogfennau a restrir ym mharagraff 1.3 (uchod). Bydd methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'u darpariaethau yn cael ei ystyried yn fater disgyblu.

# Adran 1 – Rheolaeth Ariannol

## 1.1 Safo 1.1 Safonau Rheoli Ariannol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

1.1.1 Mae gan CHTh, y PG a holl weithwyr a swyddogion y ddwy gorfforaeth undyn ddyletswydd i gadw at safonau uchaf uniondeb (h.y. gonestrwydd, unplygrwydd a thryloywder) wrth ymdrin â materion ariannol.

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau**

1.1.2 Mae gan y Prif Swyddog Cyllid (PSC) a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (CCA) bob un ddyletswydd ymddiriedol bersonol ynghlwm â'u penodiad fel yr unigolion sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol gywir. Mae hyn o dan Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac A151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae hyn yn cynnwys gofynion a grymoedd ffurfiol i ddiogelu cyfreithlondeb a chywirdeb mewn gwariant o dan a114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y'i newidiwyd gan baragraff 188 atodlen 16 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

1.1.3 Mae ar y PSC a'r CCA felly gyfrifoldeb i:

- sicrhau bod materion ariannol y CHTh a'r PG yn cael eu gweinyddu'n gywir;
- sicrhau y cedwir at arferion cywir;
- cynghori ar y rheolaethau strategol allweddol sy'n angenrheidiol i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn;
- sicrhau bod gwybodaeth ariannol ar gael er mwyn galluogi monitro ac adrodd cywir ac amserol parthed cymariaethau o ddangosyddion perfformiad ariannol cenedlaethol a lleol;
- sicrhau bod swyddogion a staff yn ymwybodol o, ac yn cydymffurfio â, safonau rheolaeth ariannol gywir, gan gynnwys y Rheoliadau Ariannol hyn;
- sicrhau y caiff swyddogion a staff eu rheoli, eu datblygu a'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn cael cefnogaeth ddigonol i gyflawni eu dyletswyddau ariannol yn effeithiol.

## 1.2 Cofn1.2 Cofnodion adenillion cyfrifyddu

**Pam mae hyn yn bwysig?**

1.2.1 Mae cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir yn un o'r ffyrdd y bydd y CHTh a'r PG yn cyflawni eu Cyfrifoldebau o ran stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus. Mae ar y CHTh a'r PG ddyletswydd statudol i baratoi Cyfrifon blynyddol er mwyn cyflwyno barn gywir a theg o'u gweithrediadau yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhain yn destun archwiliad allanol. Bydd yr archwiliad yn rhoi sicrwydd bod y Cyfrifon yn cael eu paratoi'n gywir, y dilynwyd arferion Cyfrifyddu cywir. Bydd yn rhoi sicrwydd bod trefniadau o ansawdd wedi'u gwneud er mwyn sicrhau economi, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfartaledd yn y defnydd o adnoddau'r CHTh a'r PG.

**Cyfrifoldebau'r PSC a'r CCA**

1.2.2 Pennu gweithdrefnau a chofnodion cyfrifyddu'r CHTh a'r PG yn unol â'r arferion cyfrifyddu cydnabyddedig, a chymeradwyo systemau a gweithdrefnau cyfrifyddu a gymeradwywyd gan y PG. Bydd yr holl staff yn gweithredu o fewn y polisïau cyfrifyddu angenrheidiol a'r amserlenni a gyhoeddir.

1.2.3 Gwneud trefniadau cywir ar gyfer archwilio Cyfrifon y CHTh a'r Heddlu yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Newidiad) 2014 fel y'i diwygiwyd o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

1.2.4 Sicrhau bod yr holl hawliadau am nawdd ariannol, gan gynnwys grantiau, yn cael eu gwneud erbyn y dyddiad cywir.

1.2.5 Sicrhau bod cysoniadau banc a chyfrifon rheoli allweddol eraill yn cael eu cysoni mewn dull amserol a chywir.

1.2.6 Paratoi a chyhoeddi'r Cyfrifon wedi'u harchwilio yn unol â'r amserlen statudol.

1.2.7 Sicrhau nas gwaredir cofnodion ariannol oni bai bod hynny yn unol â rheoliadau statudol rhagnodedig neu reoliadau allanol eraill fel y'i cymeradwyir gan y PSC.

1.2.8 Sicrhau bod cynllun parhad busnes sydd wedi'i ddogfennu a'i brofi yn bodoli fel bod prosesu system yn ailgychwyn mor gyflym â phosibl os bydd unrhyw beth yn tarfu ar y broses. Sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau wrth gefn effeithiol wedi'u sefydlu rhag ofn y bydd systemau cyfrifiadurol yn methu.

1.2.9 Cyhoeddi unrhyw wybodaeth ariannol fel sy'n ofynnol dan y gyfraith. (Ceir gwybodaeth yma.)

**Cyfrifoldebau'r PG a'r CCA**

1.2.10 Cael cymeradwyaeth y PSC cyn gwneud unrhyw newidiadau sylfaenol i'r cofnodion a'r gweithdrefnau cyfrifyddu neu i'r systemau cyfrifyddu.

1.2.11 Sicrhau y caiff yr holl drafodion, ymrwymiadau materol, contractau a gwybodaeth gyfrifyddu hollbwysig arall eu cofnodi'n llawn, yn gywir ac yn amserol.

1.2.12 Cynnal cofnodion digonol i ddarparu trywydd rheoli sy'n arwain o ffynhonnell yr incwm a'r gwariant drwodd i'r Datganiadau Cyfrifyddu.

## 1.3 Y Da 1.3 Datganiad Cyfrifon Blynyddol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

1.3.1 Mae ar y CHTh a’r PG ddyletswydd statudol i baratoi Cyfrifon blynyddol er mwyn rhoi barn gywir a theg o’u gweithrediadau yn ystod y flwyddyn. Mae’n rhaid eu paratoi yn unol â’r arferion cywir fel y’i pennir yn y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (“Y Cod”). Bydd y Cyfrifon yn cynnwys datganiadau ar wahân ar ran y CHTh a’r PG yn ogystal â chyfrifon grŵp ar gyfer y ddau endid.

1.3.2 Mae’r cyfrifon yn destun adolygiad annibynnol manwl gan yr archwiliwr allanol. Bydd hyn yn darparu sicrwydd bod y Cyfrifon wedi’u paratoi’n gywir, bod arferion cyfrifyddu cywir wedi’u dilyn a bod trefniadau wedi’u gwneud ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn y defnydd o adnoddau’r CHTh a’r PG.

**Cyfrifoldebau’r PSC a’r CCA**

1.3.3 Llunio amserlen ar gyfer paratoi’r cyfrifon terfynol mewn ymgynghoriad a’r Pennaeth Cyllid a’r archwiliwr.

1.3.4 Paratoi, llofnodi a dyddio’r datganiad Cyfrifon. Datgan ei fod yn adlewyrchiad cywir a theg o sefyllfa ariannol y CHTh a'r PG a'r grŵp ar y dyddiad cyfrifyddu ac o incwm a gwariant y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben.

1.3.5 Cyhoeddi cyfrifon y CHTh, y PG a'r grŵp, wedi eu cymeradwyo a’u harchwilio bob blwyddyn yn unol â’r amserlen statudol. (Ceir y datganiadau cyfrifon yma.)

1.3.6 Dethol polisïau cyfrifyddu addas a’u rhoi ar waith mewn dull cyson.

1.3.7 Ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon sy’n rhesymol ac yn ddarbodus.

1.3.8 Cydymffurfio a’r Cod Ymarfer Rheoli Ariannol y Swyddfa Gartref a Chod Rheoli Ariannol CIPFA.

**Cyfrifoldebau’r CCA**

1.3.9 Cydymffurfio a’r canllawiau cyfrifyddu a gyflwynir gan y PSC a darparu gwybodaeth briodol ar gais o fewn terfyn amser rhesymol.

**Cyfrifoldebau’r CHTh a’r PG**

1.3.10 Ystyried a chymeradwyo’r Cyfrifon blynyddol yn unol â'r amserlen statudol.

**Cyfrifoldebau’r Cydbwyllgor Archwilio**

1.3.11 Adolygu’r datganiadau cyfrifon blynyddol a bodloni eu hunain fod camau priodol wedi’u cymryd i fodloni arferion proffesiynol statudol a chymeradwyol.

# Adran 2 – Cynllunio Ariannol

## 2.1 Cynll 2.1 Cynllunio Ariannol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

2.1.1 Mae'r CHTh a'r PG yn rhannu cyfrifoldeb dros sicrhau cynllunio ariannol a chyllidebol effeithiol yn y tymor byr, canolig a hir.

2.1.2 Mae'r CHTh a'r Heddlu gyda'i gilydd yn ffurfio sefydliad cymhleth sy'n gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o weithgareddau plismona. Mae angen iddynt ddatblygu systemau sy'n galluogi clustnodi adnoddau yn unol â'r blaenoriaethau. Mae cynllunio ariannol yn hollbwysig os yw hyn am ddigwydd yn effeithiol.

2.1.3 Yr hyn ddylai arwain y broses cynllunio ariannol yw'r fframwaith polisi cymeradwy, y broses cynllunio busnes a'r angen i ddiwallu amcanion allweddol.

2.1.4 Dylai'r broses gynllunio fod yn barhaus a dylai'r cyfnod cynllunio fod dros o leiaf 3 blynedd. Dylai'r broses gynllunio gynnwys cynllun blynyddol mwy manwl - y gyllideb - sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol i ddod. Bydd hyn yn caniatáu i'r CHTh a'r PG gynllunio, monitro a rheoli'r ffordd y clustnodir ac y gwerir arian.

## CynllCynllunio Ariannol Tymor Canolig

**Cyfrifoldebau'r CHTh**

2.1.5 Mewn ymgynghoriad â'r PG a phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol eraill, dynodi a chynllunio strategaeth rheolaeth ariannol tymor canolig sy'n cynnwys cynlluniau ariannu a gwariant ar gyfer refeniw a chyfalaf a gwerth am arian. Dylai'r strategaeth fod yn un sy'n ystyried nifer o flynyddoedd, rhyngddibyniaeth cyllidebau refeniw a buddsoddiad cyfalaf, rôl y cronfeydd wrth gefn a risgiau. Dylai dalu sylw i fforddiadwyedd yn ogystal â Chod Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Dylai'r strategaeth fod wedi'i halinio â'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

**Cyfrifoldebau'r PSC a'r CCA**

2.1.6 Pennu fformat ac amseriad y cynlluniau ariannol tymor canolig sydd i'w cyflwyno i'r CHTh. Rhaid i'r fformat gydymffurfio a'r holl ofynion cyfreithiol (gan gynnwys 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003) a'r canllawiau mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan CIPFA.

2.1.7 Paratoi rhagamcaniad tymor canolig o'r incwm a'r gwariant arfaethedig i'w gyflwyno i'r CHTh. Wrth baratoi'r rhagolygon, mae'n ofynnol i'r CCA dalu sylw i:

- y Cynllun Heddlu a Throsedd;
- gofynion polisi a gymeradwywyd gan y CHTh fel rhan o'r fframwaith polisi;
- y Gofyniad Plismona Strategol;

- ymrwymiadau anochel yn y dyfodol, gan gynnwys gofynion deddfwriaethol;
- mentrau sydd eisoes ar y gweill;
- goblygiadau refeniw’r rhaglen gyfalaf ddrafft;
- datblygiadau arfaethedig mewn gwasanaeth a chynlluniau sy’n adlewyrchu ymgynghoriadau â’r cyhoedd;
- yr angen i ddarparu arbedion effeithlonrwydd/cynhyrchiant;
- dyraniadau grant y llywodraeth;
- y goblygiadau posibl i drethdalwyr lleol;
- unrhyw strategaeth gomisiynu ar ran y CHTh.

2.1.8 Paratoi rhagolwg tymor canolig o’r adnoddau posibl, sy’n cynnwys opsiynau ar gyfer y defnydd o fantolenni cyffredinol, cronfeydd a darpariaethau, a rhagdybiaeth parthed lefelau nawdd y llywodraeth yn y dyfodol.

2.1.9 Efallai y daw bwlch i’r amlwg rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r adnoddau sy'n angenrheidiol. Dylai’r PG flaenoriaethu’r gofynion er mwyn galluogi’r CHTh i ffurfio barn wybodus ynghylch lefelau ariannu'r dyfodol a chynllunio'r defnydd o adnoddau.

## Cylli Cyllideb Refeniw Flynyddol

2.1.10 Mae’r gyllideb refeniw yn rhoi amcangyfrif o’r gofyniad incwm a gwariant blynyddol ar gyfer gwasanaeth yr heddlu ac yn amlinellu goblygiadau ariannol polisïau strategol y CHTh. Mae’n rhoi’r awdurdod i’r Prif Swyddogion fynd i gostau ac yn sail ar gyfer monitro perfformiad ariannol y CHTh a'r Heddlu.

2.1.11 Dylai’r CHTh ymgynghori â’r PG a phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol eraill wrth gynllunio’r gyllideb flynyddol gyffredinol a fydd yn cynnwys cyllideb ar wahân ar gyfer yr Heddlu. Bydd hyn yn ystyried nawdd gan y llywodraeth ac o ffynonellau eraill ac yn cydbwyso anghenion gwariant gwasanaeth yr heddlu yn erbyn y lefel o drethiant lleol. Dylai hyn ddiwallu’r angen statudol i wireddu cyllideb gytbwys (Deddf Llywodraeth Leol 2003) a dylid cwblhau’r gwaith yn unol â'r amserlen statudol.

2.1.12 Dylid dynodi’r glir effaith y gyllideb flynyddol ar y blaenoriaethau ac ar nawdd y blynyddoedd i ddod fel y’i nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a'r strategaeth ariannol tymor canolig.

**Cyfrifoldebau’r CHTh**

2.1.13 Cytuno ar yr amserlen gynllunio gyda’r PG.

2.1.14 Ceisio barn y gymuned leol, gan gynnwys trethdalwyr busnes cenedlaethol, ar y gwariant arfaethedig (gan gynnwys gwariant cyfalaf) yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol y mae’r gwariant arfaethedig yn berthnasol iddi.

2.1.15 Cyflwyno’r gyllideb, y praesept a’r lefel treth cyngor arfaethedig gerbron y Panel Heddlu a Throsedd er cymeradwyaeth.

**Cyfrifoldebau'r PSC**

2.1.16 Pennu fformat y gyllideb refeniw i'w chyflwyno i'r CHTh. Rhaid i'r fformat gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol ac â'r arweiniad diweddaraf a gyhoeddwyd gan CIPFA.

2.1.17 Cael gwybodaeth amserol a chywir gan yr awdurdodau bilio ar y sylfaen treth cyngor er mwyn hysbysu trafodaethau parthed y gyllideb.

2.1.18 Cynghori'r CHTh ar y lefel briodol o fantolenni cyffredinol, cronfeydd wedi'u clustnodi neu ddarpariaethau i'w dal.

2.1.19 Cyflwyno adroddiad i'r CHTh ar:

- cadernid yr amcangyfrifon a digonoldeb y cronfeydd wrth gefn;
- y gyfres o ddangosyddion ariannol ar gyfer y tair blynedd nesaf, yn deillio o'r Cod Ariannol ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Bydd y dangosyddion hyn yn gyson â'r gyllideb refeniw flynyddol a'r rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd.

2.1.20 Pan gymeradwyir y gyllideb flynyddol, cyflwyno'r gofyniad treth cyngor i lywodraeth ganolog/Cymru a'r gofynion praesept i'r cyrff priodol yn unol â'r gofyniad cyfreithiol.

2.1.21 Creu a chyhoeddi taflen wybodaeth treth cyngor a'i chyflwyno i'r awdurdodau bilio yn unol â'r gofynion statudol.

**Cyfrifoldebau'r PG a'r CCA**

2.1.22 Paratoi amcangyfrifon cyllidebol manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod yn unol â'r amserlen a gytunwyd arni gyda'r PSC.

2.1.23 Cyflwyno amcangyfrifon ar y fformat cytunedig i'r CHTh er cymeradwyaeth, gan gynnwys manylion ynghylch y goblygiadau o ran treth cyngor a'r gofynion praesept.

## 2.2 Rheo 2.2 Rheolaeth Gyllidebol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

2.2.1 Mae rheoli cyllidebau'n sicrhau, unwaith y bydd y CHTh yn cymeradwyo'r gyllideb, y bydd adnoddau'n cael eu defnyddio i'r diben y'i bwriadwyd ac y cyfrifir yn gywir amdanynt. Mae rheolaeth gyllidebol yn broses barhaus sy'n galluogi'r PG a'r CHTh i adolygu ac addasu eu targedau cyllidebol yn ystod y flwyddyn ariannol. Y mae hefyd yn darparu mecanwaith sy'n dal rheolwyr Cyfrifon yn atebol am rannau penodol o'r gyllideb.

2.2.2 Y prif reolaethau ar gyfer rheoli'r gyllideb refeniw yw:

- bod rheolwr cyllid enwebedig ar gyfer pob pennawd canolfan gost yn atebol am y cyllidebau dan ei reolaeth uniongyrchol ef/hi; a
- ni ddylid gweld rheolaeth cyllidebau fel rhywbeth ar ei ben ei hun. Dylid ei fesur ar y cyd ag allbwn y gwasanaeth a mesurau perfformiad.

## Monitro ReMonitro Refeniw

**Pam mae hyn yn bwysig?**

2.2.3 Drwy nodi ac egluro amrywiadau yn erbyn y targedau cyllidol yn gyson, bydd yn bosibl nodi newidiadau mewn tueddiadau ac anghenion o ran adnoddau ar y cyfle cynharaf bosibl. Mae'r CHTh a'r PG yn gweithredu o fewn terfynau ariannol blynyddol a gymeradwyir pan osodir y gyllideb flynyddol. Er mwyn sicrhau nad yw'r CHTh a'r Heddlu yn ei gyfanrwydd yn gorwario, mae'n ofynnol i'r PG a'r CHTh reoli gwariant o fewn eu dyraniadau cyllidebol.

**Cyfrifoldebau'r PG a'r CCA**

2.2.4 Darparu gwybodaeth ariannol briodol i alluogi monitro cyllidebau'n effeithiol.

2.2.5 Sicrhau bod i bob elfen o incwm a gwariant reolwr cyllideb enwebedig i fod yn gyfrifol am y rhan honno o'r gyllideb. Dylid alinio cyfrifoldeb cyllidol mor agos â phosibl a'r broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â gwariant.

2.2.6 Er mwyn sicrhau bod cyfanswm y gwariant ar gyfer plismona gweithredol yn aros o fewn y dyraniad adnoddau cyffredinol ac y cymerir camau unioni os bydd amrywiadau sylweddol o'r rhagolygon cyllid cymeradwy. Lle bydd gwariant rhagamcanol yn fwy na'r cyfanswm dyraniad adnoddau oherwydd amgylchiadau y tu hwn i reolaeth y PG dylau'r PSC a'r CHTh gael gwybod ar unwaith a ddylid cyflwyno'r awgrymiadau i ddatrys y sefyllfa fel rhan o broses fonitro rheolaidd i'r CHTh.

2.2.7 Cyflwyno adroddiad monitro cyllidebau i'r CHTh yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys y wybodaeth ariannol ddiweddaraf sydd ar gael. Bydd yr adroddiadau ar fformat a gytunwyd gyda'r CHTh a'r PSC.

**Cyfrifoldebau'r PSC**

2.2.8 Cydlynu adroddiad monitro cyllidebau ar y cyd i'w gyflwyno gerbron y Panel Heddlu a Throsedd yn ôl yr angen, a fydd yn cynnwys y wybodaeth ariannol ddiweddaraf sydd ar gael.

2.2.9 I sicrhau bod cyfanswm y gwariant ar gyfer SCHTh yn parhau o fewn y dyraniad cyffredinol o adnoddau ac i gymryd camau unioni lle rhagwelir amrywiadau sylweddol o'r gyllideb gymeradwy. Lle mae cyfanswm y gwariant rhagamcanol yn fwy na chyfanswm y dyraniad o adnoddau oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y PSC, dylid hysbysu'r Prif Swyddog Gweithredol a'r PCC ar unwaith a dylid cyflwyno cynigion ar gyfer cywiro fel rhan o'r broses fonitro reolaidd i'r CHTh.

## Hawl i DrosTrosglwyddo Arian

**Pam mae hyn yn bwysig?**

2.2.9 Hawl i drosglwyddo arian (*virement*) yw cymeradwyaeth i symud arian rhwng cyllidebau neu benawdau gwariant. ‘Penawdau gwariant’ yw llinellau yn yr adroddiad cyllidebol cymeradwy. Bwriad cynllun Hawl i Drosglwyddo yw galluogi prif swyddogion i reoli eu cyllidebau gyda rhywfaint o hyblygrwydd o fewn y fframwaith polisi cyffredinol a bennwyd gan y CHTh. Drwy hynny, bydd yn rhoi cyfle iddynt wneud y defnydd gorau o adnoddau i gyd-fynd ag anghenion sy’n dod i’r amlwg.

2.2.10 Mae’n ofynnol i’r CCA (yn unol â chyfarwyddyd y PG) adrodd yn ôl i’r CHTh pan fyddai trosglwyddo arian pan mae hyn yn golygu newidiadau parhaol i bolisi’r CHTh. Dylent hefyd pan fyddai trosglwyddo’n gallu creu ymrwymiad mewn blwyddyn i ddod neu ymrwymiad parhaus. Dim ond o arian refeniw y gellir gwneud gwariant refeniw.

2.2.11 Prif reolyddion y cynllun hawl i drosglwyddo yw:

- bod y cynllun yn cael ei weinyddu gan brif swyddogion o fewn y pwerau dirprwyedig a roddir i’r CCA gan y CHTh yn y Cynllun Caniatâd. Bydd unrhyw amrywiad o’r cynllun yn gofyn am gymeradwyaeth y CHTh.
- Cytunir ar y gyllideb gyffredinol gan y CHTh. Caiff Prif Swyddogion a rheolwyr cyllidebau felly eu hawdurdodi i fynd i gostau yn unol â'r amcangyfrifon sy’n ffurfio’r gyllideb.
- Nid yw trosglwyddo arian yn creu cyfrifoldeb cyllidebol cyffredinol.
- Bydd pob prif swyddog yn sicrhau y trosglwyddir arian rhwng cronfeydd fel sy’n angenrheidiol i gynnal cywirdeb monitro cyllidebau. Bydd unrhyw drosglwyddiadau arian arwyddocaol yn cael eu hadrodd drwy’r trefniadau adrodd ariannol swyddogol.

**Cyfrifoldebau**

2.2.12 Bydd y CCA, (ar gyfarwyddyd y PG), yn defnyddio darpariaethau refeniw i brynu eitemau cyfalaf neu wneud gwaith cyfalaf (yn amodol ar gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y CHTh os yw’r trosglwyddiad arfaethedig yn fwy na £150,000). Rhaid deall canlyniadau refeniw parhaus gwariant cyfalaf cyn i'r pryniant gael ei wneud, a'i ymgorffori mewn cyllidebau fel y bo'n briodol.

2.2.13 Gall y CCA gymeradwyo unrhyw drosglwyddiad lle caiff y costau ychwanegol eu had-dalu’n llawn gan gyrff eraill. Fodd bynnag, bydd trosglwyddiadau dros £150,000 yn cael eu hysbysu i'r PSC fel mater o drefn.

2.2.14 Mewn perthynas â phob cyllideb arall bydd y PSC a’r CCA yn sicrhau bod yr hawl i drosglwyddo yn digwydd yn ôl yr angen er mwyn cynnal cywirdeb o ran monitro cyllidebau, yn amodol ar y lefelau cymeradwyo canlynol:

**Cyllideb yr Heddlu**

Hyd at £150,000 - CCA

Dros £150,000 - PSC

2.2.15 Bydd angen cymeradwyaeth y CHTh os bydd y trosglwyddiad yn golygu:

- newid arwyddocaol mewn polisi;
- ychwanegiad arwyddocaol o ran ymrwymiadau yn y dyfodol; neu

- os oedd yr adnoddau sydd i'w trosglwyddo wedi'u darparu'n wreiddiol i gwrdd â gwariant o natur cyfalaf.

2.2.16 Gall y Comisiynydd gymeradwyo amcangyfrifon ategol i'w hariannu o Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol y CHTh oni bai ei fod wedi ystyried adroddiad gan y PG, y CCA a'r PSC ar y mater.

## 2.3 RhagRhaglen Gyfalaf

**Pam mae hyn yn bwysig?**

2.3.1 Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys cael neu ychwanegu at asedau sefydlog sydd â gwerth hirdymor i'r CHTh a'r PG, megis tir ac adeiladau a pheiriannau, offer neu gerbydau o werth sylweddol. Mae asedau cyfalaf yn siapio'r ffordd y darperir gwasanaethau yn yr hirdymor ac fe allent greu ymrwymiadau ariannol ar ffurf costau ariannu a chostau cynnal refeniw.

2.3.2 Gall y CHTh ymgymryd â buddsoddiad cyfalaf cyn belled bod y cynlluniau gwariant yn fforddiadwy, yn ofalus ac yn dangos gwerth am arian. Mae cynlluniau gwario yn cael eu gwerthuso o dan God Materion Ariannol CIPFA .

2.3.3 Mae'r rhaglen gyfalaf wedi'i chysylltu â'r strategaeth ariannol gymeradwy.

2.3.4 Y CHTh sy'n berchen ar yr asedau cyfalaf, ond cyfrifoldeb y PG yw rheolaeth mwyafrif yr asedau o ddydd i ddydd. Dim ond gyda chaniatâd y CHTh y caniateir i'r PG gaffael asedau cyfalaf. Ni chaniateir i'r PG fod yn berchen ar dir ac eiddo.

**Cyfrifoldeb y PG**

2.3.5 Datblygu a gweithredu cynlluniau rheoli asedau.

**Cyfrifoldebau'r PSC a'r CCA.**

2.3.6 Hwyluso strategaeth gyfalaf er ystyriaeth a chymeradwyaeth y CHTh.

**Cyfrifoldebau'r CHTh**

2.3.7 Cymeradwyo'r strategaeth rheoli asedau.

2.3.8 Cymeradwyo'r strategaeth ariannol flynyddol.

## Rhag Rhaglen Gyfalaf Tymor Canolig

**Cyfrifoldebau'r PG a'r CCA**

2.3.9 Paratoi rhaglen dreiglol o wariant cyfalaf arfaethedig er ystyriaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Bydd pob cynllun yn dangos cost gyffredinol y prosiect ac unrhyw ymrwymiadau refeniw ychwanegol.

2.3.10 Paratoi gwerthusiadau prosiect (achos busnes) ar gyfer pob cynllun yn y rhaglen gyfalaf tymor canolig a fydd yn cael eu cyflwyno i'r PSC a'r CHTh er ystyriaeth a chymeradwyaeth. Bydd hyn yn cynnwys yr holl gostau refeniw a chyfalaf ychwanegol.

2.3.11 Bydd gan bob rhaglen gyfalaf swyddog enwebedig a fydd yn gyfrifol am noddi'r cynllun, monitro cynnydd a sicrhau cwblhad y cynllun.

2.3.12 Nodi, mewn ymgynghoriad â'r PSC, y ffynonellau o nawdd sydd ar gael ar gyfer y rhaglen gyfalaf tymor canolig, gan gynnwys nodi derbynebau cyfalaf posibl o eiddo a waredir.

2.3.13 Efallai y bydd bwlch i'w weld rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol. Y PG a'r CCA ddylai flaenoriaethu'r gofynion. Mae hyn er mwyn galluogi'r Comisiynydd i ffurfio barn gytbwys ynghylch pa gynlluniau y dylid eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf. Penderfynir hefyd ar isafswm y lefel o nawdd sy'n angenrheidiol ar gyfer pob cynllun a'r posibilrwydd o wario'r arian fesul cam.

2.3.14 Dylid cynnwys amcangyfrif o chwyddiant prisiau yn y dyfodol ym mhob cynllun yn y rhaglen gyfalaf tymor canolig drafft.

2.3.15 Bydd cymeradwyaeth y cynllun cyfalaf tymor canolig gan y Comisiynydd ym mis Chwefror bob blwyddyn yn awdurdodi'r PG i geisio caniatâd cynllunio, mynd i gostau am wasanaethau proffesiynol a threuliau cychwynnol fel sy'n briodol.

**Cyfrifoldebau'r PSC**

2.3.16 Argymell i'r CHTh beth yw'r lefel fwyaf priodol o gefnogaeth refeniw a benthyca (o dan y Cod Materion Ariannol) i gynorthwyo'r rhaglen gyfalaf.

2.3.17 Sicrhau bod y rhaglen gyfalaf wedi'i halinio â'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

**Cyfrifoldebau'r CHTh**

2.3.18 Cymeradwyo cynllun rhaglen gyfalaf tymor canolig sy'n gynaliadwy ac yn cyd-fynd â'r Cod Materion Ariannol.

## Rhaglen GyRhaglen Gyfalaf Flynyddol

**Cyfrifoldebau'r CHTh**

2.3.19 Cytuno ar y rhaglen gyfalaf flynyddol a sut y bydd yn cael ei hariannu.

**Cyfrifoldebau'r CCA**

2.3.20 Bydd cymeradwyaeth y CHTh i'r rhaglen gyfalaf flynyddol yn awdurdodi'r CCA i wario ar gynlluniau cyn belled ag y cymeradwywyd y gwerthusiad o'r prosiect. Bydd unrhyw amrywiad arfaethedig o fwy na £100,000 yn y rhaglen gyfalaf yn cael ei gyflwyno i'r Comisiynydd drwy'r trefniadau adrodd cytunedig.

2.3.21 Sicrhau nas ymrwymir i unrhyw brydlesi ariannol na threfniadau credyd eraill heb gymeradwyaeth y PSC ymlaen llaw.

2.3.22 Er mwyn sicrhau, ar wahân i ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig ag astudiaethau dichonoldeb a ffioedd cynllunio, na fydd unrhyw wariant cyfalaf yn cael ei ysgwyddo cyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y CHTh

.

## Monitro GMonitro Gwariant Cyfalaf

**Cyfrifoldebau'r PG**

2.3.23 Sicrhau y cedwir cofnodion digonol ar gyfer pob contract cyfalaf.

**Cyfrifoldebau'r PG a'r CCA**

2.2.24 Monitro gwariant trwy gydol y flwyddyn yn erbyn y rhaglen gymeradwy.

2.2.25 Cyflwyno adroddiadau monitro cyfalaf i'r Comisiynydd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Bydd yr adroddiadau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth ariannol ddiweddaraf sydd ar gael. Bydd y systemau monitro yn dangos gwariant hyd yma ac yn cymharu incwm a gwariant a ragwelir yn erbyn y rhaglen gymeradwy. Bydd yr adroddiadau ar fformat a gytunwyd gyda'r Comisiynydd a'r PSC.

2.3.26 Paratoi achos busnes ar gyfer yr holl gynlluniau cyfalaf newydd [unwaith y bydd y rhaglen flynyddol wedi'i chytuno] i'w gyflwyno i'r Comisiynydd er ymgynghoriad a chymeradwyaeth. Bydd rhaid i unrhyw newidiadau i'r rhaglen sy'n cynyddu ei gostau cyffredinol ddangos sut yr ariennir unrhyw newidiadau o'r fath.

**Cyfrifoldebau'r PSC a'r CCA.**

2.3.27 Adrodd ar y ffigyrau gwariant cyfalaf terfynol fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar y Cyfrifon statudol.

## 2.4 Cynn Cynnal Mantolenni a Chronfeydd wrth Gefn

**Pam mae hyn yn bwysig?**

2.4.1 Mae'n rhaid i'r CHTh ystyried y lefel gyffredinol o gronfeydd wrth gefn y mae'n dymuno eu cadw cyn y gall benderfynu ar lefel treth y cyngor. Cedwir cronfeydd wrth gefn fel mater o gyfraith a darbodaeth. Maent yn galluogi'r sefydliad i fod yn barod ar gyfer amrywiadau mewn llif arian a digwyddiadau costus annisgwyl a thrwy hynny'n helpu i'w ddiogelu rhag gorwario o'r gyllideb flynyddol. Gellir hefyd cynnal cronfeydd i ddibenion penodol os yw'n debygol y bydd rhywbeth sy'n gofyn am wariant yn digwydd yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r PSC**

2.4.2 Cynghori’r Comisiynydd ynghylch lefelau rhesymol o fantolenni a chronfeydd wrth gefn.

2.4.3 Adrodd yn ôl i’r Comisiynydd a’r Panel Heddlu a Throsedd ar ddigonoldeb cronfeydd cyn iddo gynnig y gyllideb flynyddol, y praesept a'r dreth cyngor.

2.4.4 Cymeradwyo symudiadau arian i ac o bob cronfa a glustnodwyd. Bydd y rhain yn cael eu nodi ar wahân yn y Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

**Cyfrifoldebau’r CCA**

2.4.5 Sicrhau bod y gyllideb refeniw flynyddol yn ddigonol i ariannu anghenion gweithredol y dyfodol heb orfod gofyn am gymeradwyaethau ychwanegol.

2.4.6 Cyflwyno (yn dilyn ymgynghoriad â’r PG) achos busnes i’r PSC a’r Comisiynydd ar gyfer eitemau o wariant ‘unwaith yn unig’ i’w hariannu o’r cronfeydd a glustnodwyd ac/neu o’r cronfeydd cyffredinol lle mae gofyn cael cymeradwyaeth ychwanegol.

**Cyfrifoldebau'r CHTh**

2.4.7 Cymeradwyo’r polisi ar gronfeydd wrth gefn a mantolenni a’r strategaeth ariannu ar gyfer eu cynnal.

2.4.8 Cymeradwyo creu a dyrannu cronfeydd a glustnodwyd, gan gynnwys pwrpas, defnydd a sail drafodaethol pob cronfa. Cymeradwyo dyraniad arian i ac o’r cronfeydd cyffredinol fel rhan o’r broses o osod cyllidebau blynyddol.

# Adran 3 – Rheoli Risg a Pharhad Busnes

## Busnes

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.1.1 Mae’n hollbwysig y datblygir ac y cynhelir systemau cadarn, integredig ar gyfer nodi a gwerthuso’r holl risgiau corfforaethol a gweithredol posibl i’r CHTh a’r Heddlu. Dylai hyn gynnwys cyfranogiad rhagweithiol pawb sy’n gysylltiedig â chynllunio a darparu gwasanaethau.

3.1.2 Mae pob sefydliad, boed yn un sector preifat neu gyhoeddus, yn wynebu risgiau i bobl ac eiddo ac i barhad gweithrediadau. Risg yw’r posibilrwydd o golledion, difrod, anaf neu fethiant i gyflawni'r amcanion a achosir o ganlyniad i weithredu neu ddigwyddiad annymunol neu ansicr. Ni ellir dileu risg yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, rheolaeth risg yw’r dull cynlluniedig a systematig o fynd ati i nodi, gwerthuso a rheoli risg. Ei amcanion yw diogelu asedau’r CHTh a’r PG a sicrhau lles corfforaethol ac ariannol parhaus y CHTh a’r Heddlu. Yn ei hanfod felly, mae’n rhan annatod o arfer busnes da.

3.1.3 Adroddir a chedwir llygad ar drefniadau rheoli risg y Comisiynydd a'r PG gan bob un o’u pwyllgorau gorchwylio perthnasol gyda'r Bwrdd Strategol Gweithredol a'r Cydbwyllgor Archwilio'n goruchwylio.

**Cyfrifoldeb y CHTh a’r PG**

3.1.4 Mae’r Comisiynydd a’r PG yn gyfrifol ar y cyd am gymeradwyo’r datganiad polisi rheoli risg a’r strategaeth rheoli risg, ac am adolygu effeithiolrwydd rheolaeth risg.

**Cyfrifoldebau’r Prif Swyddogion**

3.1.5 Paratoi datganiad polisi rheoli risg y Comisiynydd a’r Heddlu a hyrwyddo diwylliant o ymwybyddiaeth o reolaeth risg ledled y sefydliad ac adolygu risgiau fel proses barhaus.

3.1.6 Rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer nodi, asesu, atal a chyfyngu ar risgiau hysbys, gyda system fonitro wedi’i sefydlu ar gyfer adolygu effeithiolrwydd strategaethau lleihau risg a gweithrediad y rheolaethau hyn yn rheolaidd. Dylid ffurfioli’r broses rheoli risg a’i chynnal yn barhaus.

3.1.7 Sicrhau y caiff y cynlluniau parhad busnes priodol eu datblygu, eu gweithredu a'u profi'n rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r PSC**

3.1.8 Cynghori’r Comisiynydd ynghylch y trefniadau priodol ar gyfer yswiriant. Dylid pennu ac yswirio yn erbyn lefelau derbyniol o risg fel sy’n briodol. Ni ddylid ymgymryd â gweithgareddau sy’n arwain at lefelau o risg a aseswyd fel rhai annerbyniol.

3.1.9 Darperir yswiriant ar gyfer yr holl eiddo a rhwymedigaethau, a galli hyn gynnwys hunan-yswiriant.

**Cyfrifoldebau’r CCA**

3.1.10 Sicrhau, mewn ymgynghoriad â'r PSC, bod yswiriant priodol wedi’i drefnu.

3.1.11 Sicrhau y gwneir hawliadau gan y Comisiynydd a’r PG yn erbyn polisïau yswiriant yn brydlon.

3.1.12 Sicrhau fod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o’u Cyfrifoldebau o safbwynt rheoli risgiau.

3.1.13 Sicrhau bod yr holl staff, neu unrhyw un y mae yswiriant y Comisiynydd neu’r Heddlu’n eu diogelu, yn cael eu cyfarwyddo i beidio â chyfaddef atebolrwydd na gwneud unrhyw gynnig i dalu iawndal a allai niweidio asesiad o atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw hawliad yswiriant.

3.1.14 Sicrhau y cynhyrchir cofrestr risg gynhwysfawr ac y caiff ei diweddaru’n rheolaidd, ac y cymerir camau ar y cyfle cynharaf i liniaru risgiau (trosglwyddo, trin, goddef neu derfynu risgiau).

**Cyfrifoldebau’r PSG**

3.1.15 Gwerthuso ac awdurdodi unrhyw delerau indemniad y bydd partïon allanol yn gofyn i’r

CHTh neu’r PG eu rhoi.

## 3.2 Syste 3.2 System Reoli Fewnol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.2.1 Mae ‘rheolyddion mewnol’ yn cyfeirio at systemau rheoli a ddyfeisiwyd gan reolwyr er mwyn cynorthwyo i sicrhau y gwireddir amcanion mewn modd sy'n hyrwyddo'r defnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon o adnoddau ac y diogelir asedau a buddiannau'r CHTh.

3.2.2 Mae SCHTh a’r Heddlu gyda’i gilydd yn ffurfio sefydliad cymhleth sy’n gofyn am fframwaith o reolaeth fewnol i reoli a monitro cynnydd tuag at gyflawni amcanion strategol. Mae gan y CHTh a’r PG rwymedigaethau statudol ac mae angen felly system o reolaeth fewnol i nodi, diwallu a monitro cydymffurfiad â'r rhwymedigaethau hyn.

3.2.3 Mae ystod eang o risgiau ariannol, gweinyddol a masnachol yn berthnasol i’r CHTh a’r PG o ganlyniad i ffactorau mewnol ac allanol, sy’n bygwth gwireddiad eu hamcanion. Sefydlir system o reolaeth fewnol er mwyn sicrhau cyflawniad:

- gweithrediadau effeithiol ac effeithlon;
- gwybodaeth ac adroddiadau ariannol dibynadwy;
- cydymffurfiad â chyfreithiau a rheoliadau;
- rheoli risg

**Cyfrifoldebau’r Prif Swyddogion**

3.2.4 Gweithredu systemau effeithiol o reoleiddiad mewnol, yn unol â chyngor y PSC a’r CCA. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau cydymffurfiad â’r holl statudau a rheolyddion perthnasol ynghyd â datganiadau arfer gorau perthnasol eraill. Byddant yn sicrhau y diogelir adnoddau cyhoeddus yn gywir ac y’i defnyddir yn economaidd, yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gyfartal.

3.2.5 Sicrhau bod rheolyddion allweddol effeithiol yn gweithredu mewn systemau rheoli. Mae hyn yn cynnwys diffinio polisïau, gosod amcanion a chynlluniau, monitro gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall am berfformiad, a chymryd camau ymlaen llaw cyn i rywbeth ddigwydd a chamau adferol ar ôl i rywbeth ddigwydd yn ôl yr angen. Amcanion allweddol y systemau rheoli hyn yw diffinio rolau a chyfrifoldebau.

3.2.6 Sicrhau bod rheolyddion allweddol effeithiol ar waith mewn systemau a gweithdrefnau ariannol a gweithredol. Mae hyn yn cynnwys diogelu asedau yn gorfforol, gwahanu dyletswyddau, gweithdrefnau awdurdodi a chymeradwyo a systemau gwybodaeth cadarn.

**Cyfrifoldeb y CHTh, y PG, y PSG, y PSC a’r CCA.**

3.2.7 Cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol er ystyriaeth gan y Cydbwyllgor Archwilio. Yn dilyn cymeradwyaeth, dylai'r CHTh, PSG a’r PSC lofnodi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd. Dylai’r PG a’r CCA lofnodi Datganiad

Llywodraethu Blynyddol y PG.

**Cyfrifoldebau’r Cydbwyllgor Archwilio**

3.2.8 Adolygu’r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol cyn eu cymeradwyo ac ystyried a ydynt yn adlewyrchu’r amgylchedd llywodraethu, risg a rheolaeth a’r sicrwydd ategol yn gywir, a nodi unrhyw weithgaredd angenrheidiol ar gyfer gwelliant.

## 3.3 Gofy3.3 Anghenion Archwilio

## Archwilio AArchwiliad Mewnol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.3.1 Mae archwilio mewnol yn swyddogaeth darparu sicrwydd sy’n rhoi barn annibynnol a gwrthrychol i’r sefydliad ar ei amgylchedd rheoli, drwy werthuso ei effeithiolrwydd o ran gwireddu amcanion y sefydliad. Mae’n archwilio, yn gwerthuso ac yn adrodd yn wrthrychol ar ddigonoldeb yr amgylchedd rheoli fel rhywbeth sy’n cyfrannu at y defnydd cywir, economaidd, effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

3.3.2 Mae’r gofyniad am swyddogaeth archwilio mewnol naill ai’n eglur ac wedi’i grybwyll hefyd yn y ddeddfwriaeth llywodraeth leol berthnasol. (Er enghraifft, Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy’n gofyn bod awdurdodau’n gwneud “trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn gywir”). Mae gofyn hefyd i’r CHTh a’r PG gynnal system archwilio mewnol digonol ac effeithiol o dan Adran 7 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014(fel y’i diwigwyd).

3.3.3 Wrth gyflawni’r gofyniad hwn, dylai'r Comisiynydd a'r PG dalu sylw i Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Yn ychwanegol, mae Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus yn disgrifio arfer gorau. Dylid ei ddefnyddio i asesu trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus yn ansawdd archwiliadau a threfniadau llywodraethu.

3.3.4 Yn ychwanegol at alluogi’r Comisiynydd a’r PG i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â’r Cyfrifon a’r Rheoliadau Archwilio perthnasol, mae angen archwilio mewnol:

- er mwyn bodloni'r Comisiynydd a’r PG fod systemau rheolaeth fewnol effeithiol wedi'u sefydlu; a
- bodloni'r archwiliwr allanol bod systemau ariannol a rheolaethau mewnol yn effeithiol a bod Cronfa’r Heddlu'n cael ei reoli mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian.

**Cyfrifoldebau’r Cydbwyllgor Archwilio**

3.3.5 Cymeradwyo’r siarter archwilio mewnol.

3.3.6 Adolygu cynigion a wnaed o ran penodi darparwyr gwasanaethau archwilio mewnol allanol a gwneud argymhellion.

3.3.7 Cymeradwyo’r cynllun archwilio mewnol sy’n seiliedig ar risg. Mae hyn yn cynnwys

gofynion adnoddau archwilio mewnol, yr agwedd at ddefnyddio ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith sy'n ofynnol i osod dibyniaeth ar y ffynonellau sicrwydd eraill.

3.3.8 Cymeradwyo newidiadau dros dro sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol seiliedig ar risg a gofynion adnoddau.

3.3.9 Gwneud ymholiadau priodol ynghylch rheolwyr a phennaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes unrhyw gwmpas amhriodol neu gyfyngiadau adnoddol.

3.3.10 Ystyried adroddiadau gan bennaeth archwilio mewnol ar gyflawniad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyflawniad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys:

- diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder a chamau ar waith o ganlyniad i waith archwilio mewnol;
- adroddiadau rheolaidd ar ganlyniad y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant;
- adroddiadau ar adegau lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cais Llywodraeth Leol. Mae'n ystyried a yw Anghydffurfiaeth yn ddigon sylweddol y dylid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.3.11 Ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol:

- datganiad lefel cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cais Llywodraeth Leol a chanlyniad y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant sy'n cefnogi'r datganiad. Bydd y rhain yn dangos dibynadwyedd casgliadau archwilio mewnol;
- barn digonoldeb ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraeth, rheoli risg a rheolaeth y cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.3.12 Ystyried crynodebau adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd.

3.3.13 Derbyn adroddiadau sy'n amlinellu'r cam a gymerwyd lle mae pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad fod rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a all fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynghylch cynnydd gyda gweithredu camau a gytunwyd.

3.3.14 Cyfrannu at y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant ac yn benodol at asesiad ansawdd allanol archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

3.3.15 Ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle mae gofyn gwneud gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (gweler Atodiad A).

3.3.16 Cynorthwyo datblygiad cyfathrebu effeithiol gyda phennaeth archwilio mewnol.

Manylir ar gwmpas a chyfrifoldebau'r Cydbwyllgor Archwilio o fewn y Cylch Gorchwyl.

**Cyfrifoldeb y PSC a'r CCA**

3.3.17 Sicrhau darparu gwasanaeth archwilio mewnol digonol ac effeithiol.

**Cyfrifoldebau'r PG, y PSC a'r CCA.**

3.3.18 Sicrhau bod archwilwyr mewnol, unwaith y byddant wedi'u fetio, yn cael eu hawdurdodi i:

- cael mynediad i eiddo'r CHTh ar adegau rhesymol;
- cael mynediad i'r holl asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth, systemau rheoli a'r personél priodol (sy'n amodol i fetio priodol)
- derbyn unrhyw wybodaeth ac eglurhad a ystyrir yn angenrheidiol parthed unrhyw fater o dan ystyriaeth
- gofyn i unrhyw swyddog neu weithiwr gyfrif am arian parod, storfeydd neu unrhyw asedau eraill sydd dan reolaeth y CHTh neu'r PG
- cael mynediad i gofnodion sy'n perthyn i gontractwyr, yn ôl yr angen. Gwneir hyn drwy gynnwys cymal priodol ym mhob cytundeb.

3.3.19 Bydd yr Archwilwyr Mewnol yn cael mynediad uniongyrchol at Uwch Swyddogion a staff lle bo angen.

**Cyfrifoldebau'r Pennaeth Archwilio Mewnol**

3.3.20 Paratoi cynllun archwilio blynyddol sy'n cyd-fynd â [Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus] (PSIAS). Mae'r PSC a'r CCA yn gyfrifol ar y cyd am gymeradwyo'r cynllun ac unrhyw newidiadau dilynol. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio er cymeradwyaeth.

3.3.21 Mynychu neu fod wedi'i gynrychioli yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio. Cyflwyno adroddiad i bob Pwyllgor ar gynnydd o ran darparu'r cynllun blynyddol, y materion sy'n deillio o archwiliadau a gwblhawyd, ac i ba raddau y darparwyd gweithredoedd cytunedig mewn ymateb i faterion a godwyd yn yr adroddiadau archwilio.

3.3.22 Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cydbwyllgor Archwilio, yn cynnwys barn ar ddibynadwyedd y fframwaith rheoleiddio fewnol, a chrynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol i gefnogi'r farn hon.

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddogion**

3.3.23 Ystyried ac ymateb yn brydlon i wendidau rheoli, materion sydd angen sylw ac argymhellion yn yr adroddiadau archwilio. Sicrhau bod yr holl weithredoedd hanfodol neu arwyddocaol cytunedig sy'n deillio o'r archwiliad yn cael eu cyflawni yn unol â'r cynllun gweithredu cytunedig a gynhwysir ym mhob adroddiad.

**Cyfrifoldebau'r CCA**

3.3.24 Sicrhau bod systemau newydd ar gyfer cynnal cofnodion ariannol neu gofnodion

asedau, neu newidiadau arwyddocaol mewn systemau cyfredol, yn cael eu trafod a'u cytuno gyda'r PSC ac archwilio mewnol cyn gweithredu.

3.3.25 Hysbysu'r PSC ar unwaith os oes amheuaeth bod unrhyw dwyll, lladrad, afreoleidd-dra, defnydd amhriodol neu gamddefnydd o adnoddau sy'n perthyn i'r CHTh neu'r PG yn digwydd. Tra disgwylir ymchwiliad ac adroddiad, dylai'r PG gymryd yr holl gamau angenrheidiol i atal colledion pellach a diogelu cofnodion a dogfennau rhag cael eu symud neu eu haltro. Bydd ymchwilio i afreoleidd-dra ariannol mewnol fel arfer yn cael ei gynnal gan yr Adran Safonau Proffesiynol, a byddant yn ymgynghori â'r archwilydd mewnol penodedig ac yn rhoi gwybod iddo ef/hi am gynnydd. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd Pennaeth Archwilio Mewnol yn adolygu'r achos er mwyn nodi unrhyw wendidau o ran rheoleiddio mewnol a ganiataodd i'r afreoleidd-dra ddigwydd. Gall wneud argymhelliad er mwyn sicrhau bod y risg y bydd yr un peth yn digwydd eto yn cael ei leihau.

## Archwilio AArchwiliad Allanol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.3.26 Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Yr Archwilydd Cyffredinol) yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol ar gyfer cyrff cyhoeddus, gan gynnwys cyrff plismona, o dan Ddeddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013. Mae archwilwyr yn cynllunio ac yn ymgymryd â'u harchwiliad yn unol â'r Deddfau a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae gan yr archwilydd allanol hawl mynediad i'r holl ddogfennau a gwybodaeth sy'n angenrheidiol i ddibenion archwilio.

3.3.27 Mae Adran 17 Deddf 2004 yn gofyn bod yn rhaid i'r archwilydd a benodir dan Ddeddf 2004 fodloni eu hunain bod:

- y datganiadau cyfrifon blynyddol wedi eu paratoi a'u harchwilio'n unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill;
- arferion cywir wedi'u dilyn wrth lunio'r Cyfrifon, fel y manylir yn y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod);
- y corff wedi gwneud trefniadau cywir er mwyn sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth yn y defnydd o adnoddau.

3.3.28 Mae Rheoliadau (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) Awdurdodau Lleol (Cymru 2003) (fel y diwygiwyd) yn nodi Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA fel arferion cywir ar gyfer paratoi cyfrifon ar gyfer cyrff plismona yng Nghymru. Dylai'r Comisiynydd ddefnyddio adroddiadau'r archwilwyr allanol i'w gynorthwyo yn ei rôl fonitro.

**Cyfrifoldebau'r Cydbwyllgor Archwilio**

3.3.29 Ystyried llythyr blynyddol yr archwiliwr allanol, adroddiadau perthnasol ac yr adroddiad i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu.

3.3.30 Ystyried adroddiadau penodol fel y'i cytunir gyda'r archwiliwr allanol.

3.3.31 Gwneud sylwadau ar gwmpas a manylder gwaith archwilio mewnol er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian.

3.3.32 Comisiynu gwaith o archwilio mewnol ac allanol.

3.3.33 Cynghori ac argymell ar effeithiolrwydd cysylltiadau rhwng archwilio allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.

**Cyfrifoldebau'r PSC a'r CCA.**

3.3.34 Cysylltu â'r archwilydd allanol a chynghori'r Comisiynydd a'r PG ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag archwilio allanol a sicrhau bod cyswllt digonol rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol.

3.3.35 Darparu Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref â chopi o'r llythyr archwilio blynyddol a chyhoeddi hwnnw.

**Cyfrifoldebau'r PG a'r PSC**

3.3.36 Sicrhau bod yr archwilwyr allanol, i ddibenion cyflawni eu gwaith, yn cael y mynediad y mae ganddynt hawl statudol iddo mewn perthynas ag eiddo, asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth, systemau rheoli a phersonél y CHTh a'r Heddlu. Mae hyn yn amodol ar gliriad diogelwch.

**Cyfrifoldeb y Prif Swyddogion**

3.3.37 Ymateb i'r cynllun gweithredu drafft er mwyn sicrhau y caiff yr argymhellion cymeradwy eu rhoi ar waith mewn modd amserol.

## 3.4 Atal Twyll a Llygredigaeth

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.4.1 Ni fydd y CHTh a'r PG yn goddef twyll na llygredd yng ngweinyddiad ei gyfrifoldebau, boed hyn o'r tu mewn neu'r tu allan i SCHTh.

3.4.2 Disgwyliad y CHTh a'r PG parthed cywirdeb ac atebolrwydd yw bod swyddogion a staff ar bob lefel yn arwain drwy esiampl o ran sicrhau y cedwir at ofynion cyfreithiol, rheolau, gweithdrefnau ac arferion.

3.4.3 Mae'r CHTh a'r PG hefyd yn disgwyl i unigolion a sefydliadau (e.e. cyflenwyr, contractwyr a darparwyr gwasanaeth) y daw i gyswllt â nhw ymddwyn gyda gonestrwydd ac unplygrwydd.

**Cyfrifoldebau'r CHTh a'r PG**

3.4.4 Er mwyn cyhoeddi ei arweiniad ar bolisi lletygarwch ac anrhegion, mae'r PG yn gyfrifol am gyhoeddi cyfarwyddiadau manwl i holl swyddogion a staff (SCHTh a'r Heddlu) er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r polisi hwn. Bydd y cyfarwyddiadau manwl yn cael eu cymeradwyo gan y CHTh a'r PSC.

3.4.5 Bydd polisi hysbysu cyfrinachol (chwythu'r chwiban) yn cael ei weithredu. Bydd hyn er mwyn darparu cyfleuster fydd yn galluogi'r Comisiynydd, staff a'r cyhoedd i wneud honiadau o dwyll, camddefnydd a llygredd yn gyfrinachol a heb unrhyw ddial drwy gysylltu â rhywun annibynnol. Bydd y gweithdrefnau'n sicrhau fod pob honiad yn cael ei ymchwilio'n gadarn o ran dilysrwydd. Bydd er mwyn sicrhau nad ydynt yn faleisus, ac y cymerir y camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a ddaw i'r amlwg. Bydd y PSC, y PG a'r CCA yn sicrhau bod pob swyddog ac aelod yn ymwybodol o'r polisi hysbysu cyfrinachol cymeradwy.

3.4.6 Bydd y PG yn hysbysu'r PSG a'r PSC cyn gynted â phosibl os bydd ymchwiliad cychwynnol yn codi amheuon parthed unrhyw dwyll, lladrad, afreoleidd-dra, defnydd amhriodol neu gamddefnydd o eiddo neu adnoddau'r Comisiynydd. Bydd hyn yn unol â'r gweithdrefnau cymeradwy. Mewn achosion o'r fath bydd y PG, y PSG a'r PSC yn cytuno ar unrhyw broses ymchwiliol bellach. Tra cynhelir ymchwiliad ac adroddiad, bydd yn cymryd pob cam angenrheidiol i atal unrhyw golledion pellach ac i ddiogelu cofnodion rhag cael eu symud neu eu haltro.

3.4.7 Gweithredu a chynnal fframwaith o reolaeth ariannol fewnol clir sy'n amlinellu'r systemau ariannol cymeradwy i'w defnyddio gan swyddogion a gweithwyr.

**Cyfrifoldeb y PSG a CCA**

3.4.8 Cynnal cofrestr o holl letygarwch ac anrhegion ar gyfer holl swyddogion a staff.

## 3.5 Ased3.5 Asedau

### Diogelwch Diogelwch

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.5.1 Mae'r CHTh yn dal asedau sy'n cynnwys tir, eiddo, cerbydau, offer, dodrefn ac eitemau eraill, ynghyd â miliynau o bunnoedd. Mae'n bwysig bod asedau'n cael eu diogelu a'u defnyddio'n effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'n bwysig bod trefniadau ar gyfer diogelwch asedau a gwybodaeth fel ei gilydd wedi'u sefydlu ar gyfer gweithrediad gwasanaethau a bod trefniadau cywir yn bodoli ar gyfer gwaredu asedau. Mae cofrestr asedau gyfredol yn rhagofyniad o ran cyfrifyddu asedau sefydlog cywir a rheolaeth asedau cadarn.

**Cyd-destun**

3.5.2 Bydd y Comisiynydd yn berchen ar ac yn noddi'r holl asedau pa un a ydynt yn rhai a ddefnyddir dim ond gan y Comisiynydd, dim ond gan yr Heddlu neu gan y ddau gorff.

Bydd bynnag, gyda chaniatâd y Comisiynydd, gall Prif Gwnstabliaid gaffael asedau (ac eithrio tir ac adeiladau) a dylid nodi hyn yn y Cynllun Caniatâd.

3.5.3 Dylai'r Comisiynydd ymgynghori â'r PG wrth gynllunio'r gyllideb a datblygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Dylai'r ddwy broses gynnwys asesiad llawn o'r asedau angenrheidiol i ddiwallu anghenion gweithredol, gan gynnwys adnoddau dynol, seilwaith, tir, eiddo ac offer.

3.5.4 Y PG sy'n gyfrifol am gyfarwyddyd a rheolaeth yr Heddlu ac ef felly ddylai fod â rheolaeth dydd i ddydd dros yr holl asedau a ddefnyddir gan yr Heddlu.

**Cyfrifoldebau'r CCA**

3.5.5 Sicrhau:

- Y cynhelir cofrestr asedau er mwyn darparu gwybodaeth i'r CHTh a'r PG ynghylch asedau sefydlog. Mae hyn er mwyn eu diogelu, eu defnyddio'n fwy effeithiol ac effeithlon, eu cynnal yn ddigonol a'u prisio yn unol â gofynion statudol a gofynion rheoli.
- Bod asedau a chofnodion asedau'n cael eu cynnal yn gywir a'u cadw'n ddiogel a bod cynlluniau wrth gefn wedi'u sefydlu ar gyfer diogelu asedau a sicrhau parhad gwasanaeth pe bai trychineb yn digwydd neu pe bai systemau'n methu
- Na chaniateir i brydleswyr neu ddarpar denantiaid eraill y CHTh feddiannu neu fynd i mewn i dir y Comisiynydd hyd nes y sefydlir les neu gytundeb fel sy'n briodol.
- Na chaiff unrhyw aelod o staff wneud defnydd personol o un o asedau'r CHTh heb yr awdurdod priodol i wneud hynny.
- Bod eitemau gwerthfawr a symudol megis cyfrifiaduron, camerâu a recordwyr fideo yn cael eu dynodi fel eiddo CHTh Gogledd Cymru.
- Bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u Cyfrifoldebau o safbwynt diogelu asedau a gwybodaeth y CHTh a'r Heddlu, gan gynnwys gofynion y Ddeddf Diogelu Data a deddfwriaeth hawlfraint meddalwedd.
- Bod asedau nad oes bellach eu hangen yn cael eu gwaredu yn unol â'r gyfraith a threfniadau Llywodraethu'r CHTh a'r PG.
- Bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u Cyfrifoldebau o safbwynt sicrhau diogelwch systemau TGC y Comisiynydd a'r Heddlu, gan gynnwys cynnal mynediad cyfyngedig i wybodaeth a gedwir ganddynt a chydymffurfiad â pholisïau gwybodaeth a diogelwch.

3.5.6 Na ellir prynu a gwaredu tir ac eiddo oni bai bod hynny yn unol â'r fath drefniadau a fydd o dro i dro yn cael eu cymeradwyo gan y Comisiynydd, ac mewn cydymffurfiad â threfniadau llywodraethu'r Comisiynydd.

3.5.7 Lle dynodir nad oes bellach ddefnydd ar gyfer tir ac/neu eiddo, bydd y PG yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd yn awgrymu camau priodol. Gwaredir tir ac eiddo ar y telerau gorau, fel yr amlygir gan adroddiad gan syrfëwr sy'n Brisiwr cofrestredig gyda Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Os gwrthyd y cynnig uchaf, gwnaiff y CCA (yn dilyn cyfarwyddyd gan y PG) ymgynghori gyda'r PSC. Cofnodir holl warediadau asedau yn y gofrestr asedau neu'r rhestr eiddo fel sy'n briodol.

3.5.8 Bod unrhyw drafodion asedau nad ydynt yn dod o dan y strategaeth a amlinellwyd ar gyfer y flwyddyn ac o fewn y cynlluniau, yn destun cymeradwyaeth gywir y Comisiynydd.

**Cyfrifoldebau'r PSC a'r CCA**

3.5.9 Sicrhau bod incwm a geir o waredu ased yn cael ei fancio a'i gyfrif amdano'n gywir.

**Cyfrifoldeb y PSG**

3.5.10 Gwneud y fath drefniadau ag y gwelant angenrheidiol er mwyn sicrhau y cedwir yr holl ddogfennau cyfreithiol perthnasol i dir sy'n eiddo i, neu a brydlesir gan y Comisiynydd yn ddiogel.

## Prisiad

**Cyfrifoldebau'r PG**

3.5.11 Sefydlu a chynnal cofrestr o'r holl asedau sy'n eiddo i neu a brydlesir i'r Comisiynydd, bydd hyn yn cynnwys prisiad cyfredol pob ased gwerth £10,000 neu drosodd. Gall asedau fod ar ffurf eiddo (tir ac adeiladau), cerbydau, offer, dodrefn ac eitemau eraill.

3.5.12 Bydd y PG y gyfrifol am reoli stad yr heddlu. Rhaid iddo gynnal cofnodion yn dangos i ba bwrpas y'i cedwir, ei leoliad, cynllun cyfeirio, manylion prynu, manylion llog , rhenti sy'n daladwy a manylion tenantiaeth. Rhaid i'r cofnodion hyn fod ar gael i'w harchwilio gan y PSC neu ei gynrychiolydd awdurdodedig ar unrhyw adeg.

## Stocrestrau

**Cyfrifoldeb y CCA**

3.5.13 Sicrhau y cedwir stocrestrau ar fformat a gymeradwyir gan y PSC a'r CCA sy'n cofnodi eitemau gwerth dros £1,000. Cofnodir eitemau eraill os credir eu bod yn ddymunol ac yn gludadwy, megis gliniaduron, ffonau symudol, offer camera corff. (e.e. gliniaduron)

### Stociau a Chyflenwad

**Cyfrifoldebau'r PG**

3.5.14 Bydd y PG yn gyfrifol am gadw a rheoli stoc a storfeydd y Comisiynydd a bydd yn cynnal cofnodion o'u caffael, eu cadw a'u gwaredu. Bydd cyfrifon a chofnodion storfeydd, yn cynnwys cofnodion o eitemau sy'n cael eu dileu ac addasiadau eraill, yn cael eu cadw gan y PG ar ba bynnag ffurf y bydd y PG, y CCA a'r PSC yn cytuno arno.

3.5.15 Bydd y PG yn paratoi nodiadau gweithdrefnol manwl parthed y modd y disgwylir i stociau a storfeydd gael eu gweinyddu.

3.5.16 Ar 31 Mawrth bob blwyddyn, neu mor agos at y dyddiad hwnnw ag sy'n ymarferol, ac ar unrhyw ddyddiad arall y bydd y PSC yn cytuno arno, bydd y PG yn trefnu gwiriad o stoc pob storfa yn annibynnol, heb y sawl sy'n gyfrifol am y stoc. Bydd hyn er mwyn sicrhau bod y stoc gorfforol yn cyd-fynd â'r cofnodion perthnasol. Rhaid marcio eiddo deniadol a dymunol fel eiddo sy'n perthyn i CHTh Gogledd Cymru.

3.5.17 Bydd taflenni neu gofnodion stoc yn cael eu llofnodi gan y PG a'u hardystio i nodi bod y manylion a'r prisiau a ddangosir ynddynt yn gywir. Bydd y PG yn anfon unrhyw dystysgrifau yn ymwneud â stoc ymlaen at y PSC ar ei gais ef/hi.

3.5.18 Ni ddylid dal stoc sy'n fwy na'r gofynion gweithredol arferol. Bydd y PG yn gyfrifol am bennu polisi dal stoc effeithiol er mwyn sicrhau nad yw lefelau stoc dros y gofynion arferol, oni bai bod amgylchiadau arbennig lle cafwyd cymeradwyaeth y Comisiynydd. Dylid paratoi rhestr yn flynyddol o unrhyw stoc y credir nad oes bellach ddefnydd gweithredol iddo. Dylid dileu'r nwyddau yng nghyfrifon y flwyddyn y pennwyd nad oedd eu hangen mwyach.

3.5.19 Bydd unrhyw ddiffygion mewn stoc, a storfeydd sydd bellach yn anaddas, yn ddiangen neu'n anadferadwy yn cael e diddymu yn unol â'r terfynau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| (i) | hyd at £5,0000 neu drosodd: | gan y PG neu'r CCA |
| (ii) | £5,001 i £10,000: | gan y PSC |
| (iii) | dros £10,000: | gan y CHTh ar ôl ystyried adroddiad, a gyflwynwyd ar y cyd gan y PG a'r PSC |

**Cyfrifoldeb y CCA**

3.5.20 Bydd system barhaus o wirio yn cael ei chynnal a fydd yn cymharu'r stoc gorfforol sydd mewn llaw gyda'r cofnodion cadw stoc. Bydd unrhyw warged neu ddiffyg materol yn cael ei adrodd yn ôl i'r PSC. Ni ellir dileu hwn heb eu cymeradwyaeth.

**Cyfrifoldeb y PSC**

3.5.21 Rhaid i'r PSC fod yn fodlon bod y systemau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer rheoleiddio stoc a dileu diffygion yn cyd-fynd ag arfer gorau.

## Eiddo Deallusol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.5.22 Mae eiddo deallusol yn derm generig sy'n cynnwys dyfeisiadau a deunydd ysgrifenedig.

3.5.23 Polisi'r CHTh yw, os bydd unrhyw eiddo deallusol yn cael ei greu gan aelod o staff yn ystod eu cyflogaeth, yna fel rheol gyffredinol, bydd hwn yn perthyn i'r cyflogwr, nid i'r cyflogai. Mae amrywiol deddfau Seneddol yn ymwneud â gwahanol fathau o eiddo

deallusol. Gall rhai gweithgareddau yr ymgymerir â nhw o fewn SCHTh neu'r Heddlu arwain at greu eitemau y gellid eu patentu, er enghraifft datblygiadau meddalwedd. Yr enw ar eitemau o'r fath yw eiddo deallusol.

3.5.24 Os bydd y CHTh yn penderfynu cymryd rhan mewn cam-fanteisio dyfeisiadau'n fasnachol, dylai'r mater fynd yn ei flaen yn unol â chylch gorchwyl unrhyw bolisi eiddo deallusol sydd gan y CHTh ac yn unol ag unrhyw arweiniad cenedlaethol. Ni ddylai materion symud yn eu blaen hyd nes y ceir cyngor cyfreithiol.

**Cyfrifoldebau'r PG**

3.5.25 Paratoi arweiniad ar weithdrefnau eiddo deallusol a sicrhau bod swyddogion a staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau.

**Cyfrifoldebau'r PG a'r CHTh**

3.5.26 Cymeradwyo'r polisi eiddo deallusol.

## 3.6 iadau Rheoli'r Trysorlys a Bancio

### Rheoli'r Trysorlys

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.6.1 Mae SCHTh a'r Heddlu gyda'i gilydd yn sefydliad mawr sy'n trin a thrafod miliynau o bunnoedd bob blwyddyn ariannol. Mae'n bwysig fod ei arian yn cael ei drin yn iawn, mewn ffordd sy'n cydbwyso'r risg a'r adenillion, ond gyda'r sylw pennaf yn cael ei roi i ddiogelwch y swm cyfalaf.

3.6.2 Bydd y CHTh yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini rheolaeth trysorlys effeithiol:

- datganiad polisi rheoli'r trysorlys, a fydd yn datgan y polisïau, yr amcanion ar ymdriniaeth o ran rheoli risg yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys.
- arferion Rheoli'r Trysorlys addas yn amlinellu sut y bydd y sefydliad yn ceisio gwireddu'r polisïau a'r amcanion ac yn nodi sut y bydd yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

3.6.3 Bydd cynnwys y datganiad polisi a'r arferion rheoli'r trysorlys yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yng Nghanllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol. Mae hyn yn amodol ar newidiadau lle bo hynny'n angenrheidiol i adlewyrchu amgylchiadau penodol y Comisiynydd. Ni fydd newidiadau o'r fath yn arwain y CHTh i ymadael yn sylweddol o flaenoriaethau allweddol y Cod.

**Cyfrifoldebau'r CHTh**

3.6.4 Mabwysiadau Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a chanllaw traws-sector.

3.6.5 Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf flynyddol, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi. .

3.6.6 Derbyn adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Mae'n cynnwys, fel isafswm, strategaeth a chynllun blynyddol cyn y flwyddyn ariannol, ac adolygiad canol blwyddyn ac adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn, ar y ffurf a ragnodir yn yr Arferion Rheoli'r Trysorlys.

**Cyfrifoldebau'r PSC**

3.6.7 Gweithredu a monitro polisïau ac arferion rheoli'r trysorlys yn unol â Chod CIPFA ac unrhyw arweiniad proffesiynol arall.

3.6.8 Sicrhau y gweithredir a gweinyddir rheolaeth y trysorlys yn unol â Chod CIPFA a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddiadau cymeradwyol.

3.6.9 Paratoi adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys y Comisiynydd, gan gynnwys fel isafswm strategaeth flynyddol, adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiad blynyddol.

3.6.10 Trefnu benthyciadau a buddsoddiadau, yn unol â Chod CIPFA , a sicrhau y gwneir yr holl fuddsoddiadau a benthyciadau yn enw'r Comisiynydd.

**Trefniadau Bancio**

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.6.11 Mae ein gweithgareddau bancio'n cael eu rheoli gan drefniadau cytundebol sy'n anelu at ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau bancio cymhleth ac arbenigol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac adrannau, sefydliadau a staff yr Heddlu. Mae ymdriniaeth gyson a diogel tuag at wasanaethau bancio yn hollbwysig er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau gan fancwyr y Comisiynwyr a'r gwerth gorau posibl am arian.

**Cyfrifoldebau'r PSC**

3.6.12 Bod a chyfrifoldeb cyffredinol am drefniadau bancio'r CHTh.

3.6.13 Cynhyrchu a chynnal polisïau ar sefydlu a chynnal cyfrifon banc, mewn ymgynghoriad â'r CCA.

3.6.14 Pan fydd arian parod gwerth mwy na €10,000[1] (neu swm cyfatebol) o un ffynhonnell yn cael ei dderbyn, dylid hysbysu'r PSC. Nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn ymwneud ag atafaeliadau a wnaed i ddibenion plismona a'u bancio wedi hynny (Gweler Rheoliad Ariannol 3.9)

[1] Neu swm is os manylir gan ddeddfwriaeth

## 3.7 Staffio

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.7.1 Costau staffio yw'r elfen fwyaf o'r gyllideb blismona flynyddol. Dylai strategaeth AD briodol fod wedi'i sefydlu y gellir cydweddu anghenion staffio a dyraniadau cyllideb o fewn iddi. Y PG sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r strategaeth AD gyffredinol yn dilyn ymgynghoriad â'r CHTh. Cyflogir staff SCHTh o dan yr un telerau ac amodau â staff yr heddlu.

**Cyfrifoldeb y PG**

3.7.2 Sicrhau y caiff swyddogion a staff eu penodi, eu cyflogi a'u diswyddo yn unol â'r rheoliadau statudol perthnasol, cytundebau a pholisïau personél cenedlaethol ac/ neu leol a chyllidebau a strategaethau a gytunir gan y Comisiynydd.

**Cyfrifoldebau'r CHTh**

3.7.3 Penodi'r PG, PSG a'r PSC. Gall y CHTh hefyd ddewis penodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (DGHTh).

3.7.4 Gweithredu fel yr awdurdod pensiynau ar gyfer y PG ac i staff SCHTh.

**Cyfrifoldebau'r CCA**

3.7.5 Cynghori'r Comisiynydd ar y gyllideb sy'n angenrheidiol mewn unrhyw flwyddyn benodol ar gyfer ariannu lefelau swyddogion heddlu a staff yr heddlu a ragwelir.

3.7.6 Addasu'r nifer o staff a swyddogion i fodloni'r gyllideb gymeradwyol, ac amrywio'r sefydliad fel sy'n angenrheidiol o fewn cyfyngiadau polisi er mwyn bodloni anghenion gweithredol.

3.7.7 Bod â systemau yn eu lle ar gyfer cofnodi materion sy'n effeithio ar daliadau i staff, gan gynnwys penodiadau, diswyddiadau, secondiadau, gwaharddiadau, trosglwyddiadau a'r holl absenoldebau o'r gwaith.

3.7.8 Mewn ymgynghoriad â'r PG, cymeradwyo trefniadau polisi ar gyfer ymddeoliadau cynnar ar sail afiechyd neu ar sail effeithlonrwydd ar gyfer holl swyddogion a staff; ac ar gyfer trefniadau diswyddo ar gyfer staff yr heddlu.

**Cyfrifoldebau'r PSG**

3.7.9 Bod â'r un Cyfrifoldebau â'r CCA dros staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y CHTh.

## Cronfeydd Answyddogol, Cronfeydd Gwirfoddol a Chronfeydd Ymddiriedolaeth

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.8.1 Mae i gronfeydd ymddiriedolaeth statws cyfreithiol ffurfiol a lywodraethir gan weithred ymddiriedolaeth. Mae'n rhaid i weithwyr a swyddogion heddlu sy'n gweithredu fel ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gofynion y weithred ymddiriedolaeth a'r gyfraith a chydymffurfio'n llawn a'r rhain.

3.8.2 Dylid ystyried y rheoliadau ariannol hyn a gweithdrefnau ariannol HGC fel arfer gorau, a'u dilyn ble bynnag y bo hynny'n ymarferol. RHAID i swyddogion a staff ddilyn y rheoliadau ariannol hyn a'r gweithdrefnau sydd oddi tanynt lle nad oes rheoliadau a gweithdrefnau ariannol mewn lle ar gyfer cronfa.

3.8.3 Ni ddylai unrhyw swyddog nac aelod staff agor cronfa ymddiriedolaeth, cronfa answyddogol na chronfa wirfoddol heb gymeradwyaeth penodol y PSC a'r CCA (ym mhob achos) a'r PG (swyddogion a staff yr heddlu) neu'r CHTh (staff SCHTh).

**Cyfrifoldeb Ymddiriedolwyr (neu rywun cyfatebol)**

3.8.4 Bydd pob swyddog a staff sy'n gweithredu fel ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu statws swyddogol yn sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio fel sy'n ofynnol dan y gyfraith a'u cyflwyno'n flynyddol i'r corff priodol. Bydd gan y PSC ac / neu'r CCA hawl i ddilysu bod hyn wedi'i wneud.

**Cyfrifoldeb y PG**

3.8.5 Bydd y PG yn gyfrifol am reolaeth cronfeydd answyddogol a gwirfoddol a bydd yn cadw rhestr o gronfeydd o'r fath sy'n ymwneud â'r Comisiynydd.

3.8.6 Bydd cronfeydd answyddogol yn cael eu gweinyddu yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y PG. Bydd y PG yn ymgynghori â'r PSC cyn llunio cyfarwyddiadau o'r fath.

**Cyfrifoldebau'r PSC.**

3.8.7 Bydd gan y PSC hawl i archwilio cofnodion cronfeydd o'r fath. Fel arfer rhaid penodi unigolyn â'r cymwysterau priodol i archwilio'r cyfrifon. Bydd y cyfrifon yn cael eu cyflwyno i'r Ymddiriedolwyr neu gyfwerth cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac i'r PG o fewn 3 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 3.9 Gweinyddu Eiddo Tystiolaethol a Heb Fod yn Dystiolaethol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.9.1 Mae'n angenrheidiol i'r PG arfer dyletswydd gofal a diogelu eiddo tystiolaethol a heb fod yn dystiolaethol. Yn y cyfamser, gwneir penderfyniadau ynghylch ei berchnogaeth, yn ogystal ag eiddo preifat unigolion (e.e. unigolyn dan amheuaeth o gyflawni trosedd sydd wedi'i gadw yn y ddalfa).

**Cyfrifoldebau'r PG**

3.9.2 Pennu gweithdrefnau ar gyfer diogelu eiddo preifat unigolyn, (ar wahân i swyddog neu aelod o staff) sydd o dan ei warchodaeth neu oruchwyliaeth. Bydd y gweithdrefnau hyn ar gael i'r holl staff a swyddogion priodol.

3.9.3 Pennu gweithdrefnau ar gyfer diogelu eiddo tystiolaethol a heb fod yn dystiolaethol. Bydd y gweithdrefnau hyn ar gael i'r holl swyddogion a staff priodol a byddant yn cyfeirio'n benodol at yr angen i yswirio eitemau gwerthfawr.

3.9.4 Cyhoeddi gweithdrefnau ariannol ar wahân ar gyfer ymdrin ag arian parod, gan gynnwys arian a atafaelir dan y Ddeddf Elw Troseddau.

**Cyfrifoldeb holl swyddogion a staff**

3.9.5 Hysbysu'r PG ar unwaith os bydd colled, difrod neu ostyngiad mewn gwerth eiddo preifat o'r fath.

## Anrhegion, Benthyciadau a Nawdd Ariannol

3.10.1 Nid yw hyn yn cynnwys derbyn lletygarwch ac anrhegion – gweler adran 3.4.

**Pam mae hyn yn bwysig?**

3.10.2 Yn unol â Deddf yr Heddlu 1996, efallai y bydd y Comisiynydd yn penderfynu derbyn anrhegion o arian ac anrhegion neu fenthyciadau o eiddo a gwasanaethau eraill (e.e. lleoedd parcio). Mae hyn os bydd hyn yn galluogi'r heddlu naill ai i wella neu ehangu'r gwasanaeth y byddai disgwyl iddynt ei ddarparu'n arferol. Efallai y bydd y telerau y derbynnir anrhegion neu fenthyciadau oddi tanynt yn caniatáu noddi rhai o weithgareddau'r heddlu yn fasnachol.

**Cyd-destun**

3.10.3 Mae anrhegion, benthyciadau a nawdd ariannol yn arbennig o addas ar gyfer gwaith aml-asiantaeth megis atal trosedd, gwaith cysylltiadau cymunedol a chynlluniau cefnogi dioddefwyr.

3.10.4 Gellir derbyn anrhegion, benthyciadau a nawdd o unrhyw ffynhonnell sydd â rhesymau dilys, da dros fod eisiau cefnogi prosiectau penodol. Yn gyfnewid am hyn, efallai y bydd y darparwr yn disgwyl peth cyhoeddusrwydd neu gydnabyddiaeth arall. Mae'n dderbyniol arddangos enw neu logo'r darparwr ar ddeunydd cyhoeddusrwydd, ar yr amod nad yw hyn yn gorthrymu neu'n tynnu oddi wrth bwysigrwydd y prosiect a noddir.

3.10.5 Ni ddylai cyfanswm gwerth yr anrhegion, benthyciadau neu nawdd a dderbynnir fod yn fwy na 1% o wariant cyllideb gros SCHTh mewn unrhyw un flwyddyn.

**Cyfrifoldeb y CHTh**

3.10.6 Cymeradwyo, adolygu a diweddaru'r polisi ar anrhegion, benthyciadau a nawdd fel sy'n briodol.

**Cyfrifoldebau'r CCA**

3.10.7 Derbyn anrhegion, benthyciadau neu nawdd o fewn y canllawiau polisi cymeradwy ac mewn ymgynghoriad â'r PG.

3.10.8 Cyfeirio'r holl anrhegion, benthyciadau a nawdd gwerth dros £20,000 i sylw'r Comisiynydd cyn eu derbyn.

3.10.9 Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Comisiynydd yn rhestru'r holl anrhegion, benthyciadau a nawdd.

3.10.10 Cynnal cofrestr ganolog, ar ffurf a gymeradwywyd gan y PSC, o'r holl fentrau a chytundebau nawdd. Bydd hyn yn cynnwys eu gwir werth ar y farchnad, a darparu datganiad blynyddol wedi'i ardystio o'r holl fentrau a chytundebau o'r fath. Bydd y gofrestr ar gael i'r PSC a fydd yn bodloni ei hun ei fod yn darparu cyfrif addas o'r graddau y derbyniwyd y fath adnoddau ychwanegol.

3.10.11 Bancio arian parod o weithgaredd noddi yn unol â'r gweithdrefnau incwm arferol.

# Adran 4 – Systemau a Phrosesau

## 4.1 Systemau a Phrosesau - Cyflwyniad

**Pam mae hyn yn bwysig?**

4.1.1 Mae llawer o systemau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheolaeth asedau sy'n perthyn i'r CHTh a'r PG, yn cynnwys systemau prynu, costio a rheoli. Mae'r CHTh a'r PG yn dibynnu ar gyfrifiaduron am wybodaeth ynghylch rheolaeth ariannol. Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon fod yn gywir a rhaid i'r systemau a'r gweithdrefnau fod yn gadarn ac yn cael eu gweinyddu'n dda. Dylent gynnwys rheolaethau er mwyn sicrhau y prosesir trafodion yn gywir ac y datgelir camgymeriadau yn gyflym.

4.1.2 Mae gan y PSC a'r CCA ddyletswyddau statudol dros sicrhau bod systemau ariannol yn gadarn a dylid felly eu hysbysu o unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau.

**Cyfrifoldebau'r PSC a'r CCA**

4.1.3 Gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiad cywir materion ariannol y Comisiynydd a'r PG gan gynnwys:

- rhannu cyngor, arweiniad a gweithdrefnau ar gyfer swyddogion ac eraill sy'n

gweithredu ar ran y CHTh neu'r PG;

- pennu'r systemau Cyfrifyddu, ffurf y Cyfrifon a'r cofnodion ariannol ategol;
- sefydlu trefniadau ar gyfer archwilio materion ariannol y CHTh a'r PG;
- cymeradwyo unrhyw systemau ariannol newydd i'w cyflwyno;
- cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r systemau ariannol presennol.

4.1.4 Sicrhau, mewn perthynas â systemau a phrosesau, bod:

- systemau'n ddiogel, bod rheolaeth fewnol ddigonol yn bodoli a bod cofnodion cyfrifyddu (e.e. anfonebau, dogfennaeth incwm) yn cael eu cynnal yn briodol a'u cadw'n ddiogel. Bydd hyn yn cynnwys gwahanu dyletswyddau'n briodol er mwyn lleihau'r risg o gamgymeriadau, twyll neu gamarfer arall;
- rheolaethau priodol yn bodoli er mwyn sicrhau bod mewnbwn, prosesu ac allbwn pob system yn ddilys, yn gyflawn, yn gywir, yn amserol ac na chawsant eu prosesu eisoes;
- y cynhelir trywydd archwilio cyflawn, sy'n caniatáu olrhain trafodion ariannol o'r cofnodion cyfrifyddu i'r ddogfennaeth wreiddiol ac i'r gwrthwyneb;
- systemau'n cael eu dogfennu a staff yn cael eu hyfforddi yn eu gweithrediad.

4.1.5 Sicrhau bod cynllun parhad busnes wedi'i ddogfennu a'i brofi yn bodoli fel bod prosesu system allweddol yn ailgychwyn mor gyflym â phosibl os bydd amhariad. Sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau wrth gefn effeithiol wedi'u sefydlu rhag ofn y bydd systemau cyfrifiadurol yn methu.

4.1.6 Sefydlu cynllun dirprwyo a fydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer nodi staff a awdurdodwyd i weithredu ar ran y CHTh a'r PG o safbwynt casglu incwm, archebu, talu a chyflogi staff.

## 4.2 Incwm

**Pam mae hyn yn bwysig?**

4.2.1 Mae incwm yn hollbwysig i'r CHTh a'r PG. Mae systemau effeithiol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr holl incwm sy'n ddyledus yn cael ei nodi a'i gasglu, ac y cynhyrchir derbynebau ac y caiff ei fancio'n ddi-oed.

**Cyd-destun**

4.2.2 Dylai'r Comisiynydd a'r PG fabwysiadu polisïau cenedlaethol CCPSH wrth godi tâl am wasanaethau dan adran 25 Deddf yr Heddlu 1996. Dylid cofio mai diben codi am wasanaethau arbennig yw sicrhau, ble bynnag bosibl, fod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau'n talu amdanynt. Priodolir yr holl incwm i'r CHTh a dylid ei fancio'n unol a hynny.

4.2.3 Dylai CHTh sicrhau bod trefniadau yn eu lle i sicrhau bod unrhyw daliadau i'w codi'n cael eu dangos yn glir yn eu cyllidebau a bod y costau'n cael eu priodoli a'u codi'n gywir. Wrth ystyried lefelau cyllidebau dylai Comisiynwyr sicrhau nad yw anghenion adnoddau parhaus yn ddibynnol ar nifer arwyddocaol o ffynonellau incwm ansicr neu anwadal a dylent roi'r sylw dyladwy i ddarpariaeth gwasanaeth cynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod.

4.2.4 Wrth bennu anghenion o safbwynt adnoddau bydd y PG yn nodi’r incwm a ddisgwylir o godi tâl am wasanaethau. Dylai'r PG fabwysiadu polisïau codi tâl CCPSH o safbwynt cyd-gymorth.

**Cyfrifoldebau’r PG a’r CHTh**

4.2.5 Mabwysiadu polisïau codi tâl cenedlaethol CCPSH ac arweiniad cenedlaethol wrth godi taliadau o dan adrannau 24 a 25 Deddf yr Heddlu 1996.

**Cyfrifoldebau’r CCA a’r PSC**

4.2.6 Gwneud trefniadau ar gyfer casglu'r holl incwm sy’n ddyledus i'r CHTh a chymeradwyo'r gweithdrefnau, systemau a dogfennaeth ar gyfer ei gasglu, gan gynnwys codi TAW yn gywir.

4.2.7 Cytuno ar bolisi codi tâl am gyflenwad nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys codi TAW yn briodol, a'i adolygu'n rheolaidd yn unol â pholisïau corfforaethol. Dylai'r symiau a godir adfer yr holl gostau oni bai bod rheoliadau'n gofyn fel arall, neu os ceir cymeradwyaeth pendant y Comisiynydd.

4.2.8 Sicrhau y telir yr holl incwm i gyfrif banc y Comisiynydd y ddi-oed a heb unrhyw ddidyniadau. Dylid cofnodi manylion priodol ar y slipiau talu i mewn er mwyn sicrhau trywydd archwilio.

4.2.9 Sicrhau nad yw incwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer talu sieciau personol neu i wneud taliadau eraill.

**Cyfrifoldebau’r CCA**

4.2.10 Mewn ymgynghoriad a'r Prif Weithredwr, cychwyn gweithdrefnau adfer dyledion priodol, gan gynnwys camau cyfreithiol lle bo hynny'n angenrheidiol.

4.2.11 Ni fydd unrhyw ddyled, mewn perthynas â swm sy'n ddyledus gan y Comisiynydd, unwaith y'i sefydlir, wedi'i thalu'n ôl heblaw drwy daliad, drwy gyhoeddi nodyn credyd swyddogol neu fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 4.2.12 isod.

4.2.12 Rhaid rhoi gwybod i’r Prif Gwnstabl am ddyledion nad oes modd eu hadfer cyn gynted â phosibl. Y terfynau dirprwyedig ar gyfer dileu dyledion yw:

| | |
|---|---|
| • hyd at £500: | Pennaeth Cyllid a CCA; |
| • dros £500 ac o dan £5,000: | CCA a PSC; |
| • £5,000 a throsodd | CHTh a’r PSC |

Bydd crynodeb o’r holl ddyledion sy'n cael eu dileu yn cael ei rhoi i'r Comisiynydd yn chwarterol.

4.2.13 Paratoi Gweithdrefnau Ariannol manwl ar gyfer ymdrin ag incwm, i’w gytuno gyda’r PSC a’u cyflwyno i’r holl weithwyr priodol.

## 4.3 Archebu a Thalu am Waith, Nwyddau a Gwasanaethau

**Pam mae hyn yn bwysig?**

4.3.1 Dylid gwario arian cyhoeddus yn unol â pholisïau'r Comisiynydd. Mae gan y CHTh a'r PG ddyletswydd statudol i sicrhau cywirdeb ariannol a gwerth gorau. Yn ychwanegol, mae rhaid i sefydliadau sector cyhoeddus yn Lloegr ystyried Deddf Gwerth Cymdeithasol 2012 a rhaid i rai Cymru ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gwneir pryniannau yn unol â'r Rheoliadau Ariannol hyn, y Rheolau Sefydlog sy'n berthnasol i Gontractau, y Gweithdrefnau Prynu ac Archebu a'r Polisi Gwerth Cymdeithasol.

**Cyfrifoldebau'r CCA**

4.3.2 Cynnal polisi caffael sy'n amlinellu'r holl egwyddorion i'w dilyn wrth brynu gwaith, nwyddau a gwasanaethau.

4.3.3 Cyhoeddi archebion swyddogol ar gyfer gwaith, nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir i SCHTh a'r Heddlu, ar wahân i wasanaethau, taliadau cyfnodol megis rhent neu drethi, pryniannau arian parod ac eithriadau eraill a gymeradwyir gan y PSC. Rhaid i archebion fod ar ffurf a gymeradwyir gan y PSC.

4.3.4 Ni ddylid codi archebion ar gyfer pryniannau personol neu breifat, ac ni ddylid ychwaith wneud defnydd personol neu breifat o unrhyw rai o gytundebau'r CHTh na'r PG.

4.3.5 Mae'n rhaid i nwyddau a gwasanaethau a archebir fod yn briodol a rhaid bod darpariaeth gyllidebol ddigonol ar eu cyfer. Rhaid cael dyfynbrisiau neu dendrau lle bynnag y bo hynny'n angenrheidiol, yn unol â'r rheoliadau hyn a'r darpariaethau yn y Rheolau Sefydlog perthnasol i Gontractau; a'r Gweithdrefnau Prynu.

4.3.6 Ni ddylid gwneud taliadau oni bai bod SCHTh neu'r Heddlu wedi cael y swm cywir o nwyddau neu wasanaethau o'r ansawdd iawn am y pris cywir gydag archeb brynu swyddogol. Ceir eithriad os yw hynny'n hanfodol er mwyn sicrhau y ceir cyflenwad penodol, neu lle byddai gostyngiad pris manteisiol yn cael ei golli,

4.3.7 Sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud i'r unigolyn cywir, am y swm cywir, yn brydlon yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi'n gywir, ni waeth pa ddull o dalu bydd yn cael ei ddefnyddio.

4.3.8 Sicrhau yr adhawlir TAW lle bo hynny'n briodol.

4.3.9 Sicrhau y caiff yr holl wariant, gan gynnwys TAW, ei gofnodi'n gywir yn erbyn y gyllideb gywir a bod unrhyw eithriadau'n cael eu cywiro.

4.3.10 Sicrhau y bydd unrhyw bryniannau a wneir drwy e-gaffael yn dilyn y rheolau, y rheoliadau a'r gweithdrefnau a bennir yn y Rheolau Sefydlog parthed Contractau a'r Polisi Gwerth Cymdeithasol.

4.3.11 Mewn ymgynghoriad a'r PSC, paratoi gweithdrefnau ariannol manwl gywir ar gyfer ymdrin ag archebu a thalu am nwyddau a gwasanaethau, a chyflwyno'r rhain i'r holl

swyddogion a staff priodol.

**Cyfrifoldebau Prif Swyddogion**

4.3.12 Gofalu y bydd pob swyddog ac aelod o staff yn datgan unrhyw gysylltiadau neu fudd personol o safbwynt prynwyr, cyflenwyr neu gontractwyr os ydynt yn ymwneud â phenderfyniadau cytundebu neu brynu ar ran y CHTh neu'r PG. Gofalu nad yw unigolion o'r fath yn cymryd unrhyw ran yn y broses dethol cyflenwr neu gontract y maent yn gysylltiedig ag ef.

4.3.13 Sicrhau bod yr holl swyddogion a staff perthnasol yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Sefydlog cysylltiedig â chontractau; polisïau'n ymwneud a phryniant canolog, strategaethau TG ac iechyd a diogelwch a'r holl weithdrefnau perthnasol.

## 4.4 Taliadau i Swyddogion, Staff, Gwirfoddolwyr ac Aelodau

**Pam mae hyn yn bwysig?**

4.4.1 Costau staff yw'r eitem fwyaf o wariant i'r CHTh a'r PG. Mae'n bwysig felly bod rheolaethau yn eu lle i sicrhau y gwneir taliadau cywir, amserol a dilys yn unol ag amodau cyflogaeth unigolion.

**Cyfrifoldebau'r CCA**

4.4.2 Sicrhau, mewn ymgynghoriad â'r PSC, bod cyflogau, goramser, pensiynau, iawndal a thaliadau eraill i swyddogion a staff presennol neu gyn swyddogion a staff, gwirfoddolwyr ac aelodau yn cael eu talu mewn dull diogel a dibynadwy.

4.4.3 Sicrhau y telir treth, blwydd-daliadau a didyniadau eraill yn gywir ac y trosglwyddir taliadau ar yr amseroedd cywir i'r cyrff priodol.

4.4.4 Talu'r holl hawliadau dilys am gostau teithio a chynhaliaeth.

4.4.5 Talu cyflogau, pensiynau ac ad-daliadau drwy'r dulliau mwyaf darbodus.

4.4.6 Sicrhau nad yw trafodion cyflogres yn cael eu prosesu mewn unrhyw ffordd ar wahân i drwy'r system gyflogres. Ni fydd taliadau i unigolion a gyflogir ar sail hunangyflogedig, ymgynghorydd neu is-gontractio yn cael eu gwneud dim ond yn unol â gofynion CThEM. Mae CThEM yn gweithredu diffiniad llym o statws gweithiwr, ac os oes unrhyw amheuaeth dylid cysylltu â nhw.

4.4.7 Sicrhau y cedwir cofnodion llawn o daliadau heb fod yn arian ac y rhoddir cyfrif cywir ohonynt mewn unrhyw wybodaeth i CThEM.

4.4.8 Paratoi Gweithdrefnau Ariannol manwl ar gyfer ymdrin â thaliadau i swyddogion a staff, i'w gytuno gyda'r PSC a'u cyflwyno i'r holl swyddogion a staff priodol.

## 4.5 Trethiant

**Pam mae hyn yn bwysig?**

4.5.1 Mae materion treth yn aml yn gymhleth iawn ac mae'r cosbau am gyfrifo treth yn anghywir yn llym.

**Cyfrifoldebau'r PSC**

4.5.2 Sicrhau y cwblheir ac y cyflwynir holl ffurflenni ariannol CThEM parthed PAYE a NIC yn brydlon a bod taliadau dyladwy'n cael eu gwneud yn unol â'r gofynion statudol.

4.5.3 Sicrhau bod hawliadau TAW (mewnbynnau ac allbynnau) ar gyfer CThEM yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno'n brydlon.

**Cyfrifoldebau'r PSC a'r CCA**

4.5.4 Sicrhau bod y TAW cywir yn cael ei glustnodi i'r holl incwm sy'n ddyledus a bod yr holl TAW sydd i'w dderbyn ar bryniannau'n cyd fynd â rheoliadau CThEM.

4.5.5 Rhoi manylion i CThEM ynghylch cynllun didyniadau treth y diwydiant adeiladu.

4.5.6 Sicrhau bod y staff technegol priodol yn cael mynediad i'r canllaw diweddaraf a chyngor proffesiynol.

## 4.6 Cardiau Credyd Corfforaethol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

4.6.1 Mae'r defnydd o gardiau credyd yn ddull effeithiol o dalu ar gyfer swyddogion dynodedig sydd, wrth gyflawni eu busnes swyddogol, yn gorfod gwneud taliadau uniongyrchol sy'n berthnasol i gyflawniad eu dyletswyddau.

**Cyfrifoldeb y PG**

4.6.2 Ar y cyd a'r PSC, darparu cyfarwyddiadau ariannol i bawb sydd â cherdyn.

**Cyfrifoldeb y CCA**

4.6.3 Awdurdodi a chadw rheolaeth dros gyflwyno cardiau.

**Cyfrifoldeb rhai sy'n meddu cardiau credyd**

4.6.4 Sicrhau bod pryniannau yn unol â'r polisïau a gweithdrefnau prynu cymeradwy.

4.6.5 Darparu manylion gyda derbynebau o'r holl daliadau a wneir gyda chardiau credyd corfforaethol bob mis gan gynnwys gwybodaeth ynghylch dim gwariant, er mwyn sicrhau yr adlewyrchir gwariant yn gywir yn y Cyfrifon a bod TAW yn cael ei adfer.

## 4.7 Cardiau Prynu

**Pam mae hyn yn bwysig?**

4.7.1 Mae cardiau prynu yn ddull amgen o brynu a thalu am nwyddau o werth cymharol isel sy'n cynhyrchu llawer iawn o anfonebau. Dylai hyn gynhyrchu arbedion yn sgil costau trafodion is (h.y. llai o anfonebau wedi'u prosesu ac yn cael eu talu amdanynt drwy'r system Cyfrifon) yn ogystal â lleihau'r nifer o drafodion arian parod.

**Cyfrifoldebau'r CCA**

4.7.2 Cyflwyno gweithdrefnau ariannol manwl i ddalwyr cardiau.

4.7.3 Awdurdodi a chadw rheolaeth dros gyflwyno cardiau.

4.7.4 Sicrhau y cymodir y cyfrif cardiau prynu yn fisol yn y cyfriflyfr.

**Cyfrifoldeb rhai sy'n meddu cardiau credyd**

4.7.5 Bod yn gyfrifol am archebu a thalu am nwyddau a gwasanaethau yn unol â'r polisïau prynu cymeradwy, rheolau sefydlog contractau a'r holl weithdrefnau a bennir gan y CCA.

## 4.8 Cydnabyddiaethau

**Pam mae hyn yn bwysig?**

4.7.1 Gwneir cydnabyddiaethau pan nad oes unrhyw ddyletswydd gyfreithiol wedi'i sefydlu.

**Cyfrifoldebau'r PG**

4.7.2 Y tu allan i drefniadau atebolrwydd yswiriant yr Heddlu, bydd gan y PG hawl i ddyfarnu cydnabyddiaethau mewn perthynas ag anaf personol, difrod a cholledion eiddo, hyd at uchafswm o £1,000 mewn unrhyw un achos.

4.7.3 Dim ond gyda chymeradwyaeth y Comisiynydd y gwneir taliadau dros £1,000. Gall ei Ddirprwy neu'r PSG roi cymeradwyaeth yn ei absenoldeb os bydd angen gwneud taliad brys.

# Adran 5 – Trefniadau Gweithio ar y Cyd

## 5.5.1 Trefniadau Gweithio ar y Cyd

**Pam mae hyn yn bwysig?**

5.1.1 Caiff cyrff cyhoeddus eu hannog fwyfwy i ddarparu gwasanaeth di-dor drwy weithio'n agos â chyrff cyhoeddus eraill, awdurdodau lleol, asiantaethau a darparwyr trydydd sector a sector preifat. Gall trefniadau gweithio ar y cyd ddigwydd ar sawl ffurf, pob un a'i drefniadau llywodraethu ei hun.

5.1.2 Manylir canllaw ar gyfer sefydlu a gweithio mewn partneriaethau, cydweithio a threfniadau gweithio ar y cyd eraill yn y Polisi Partneriaethau ar y Cyd a Chydweithio.

5.1.3 Mae gan bartneriaid sy'n rhan o drefniadau cydweithio gyfrifoldebau cyffredin:

- gweithio’n ddidwyll bob amser ac er budd gorau nodau ac amcanion y bartneriaeth.
- bod yn barod i gymryd rôl yn y rhaglen ehangach, fel sy'n briodol o safbwynt sgiliau ac adnoddau'r sefydliad cyfranogol.
- bod yn agored ynghylch unrhyw anghydfod a allai godi.
- annog cydweithio a hyrwyddo rhannu gwybodaeth, adnoddau a sgiliau.
- cadw unrhyw wybodaeth a geir o ganlyniad i unrhyw weithgareddau neu ddyletswyddau o natur gyfrinachol neu fasnachol sensitif yn ddiogel.
- hyrwyddo’r prosiect.

5.1.4 Ym mhob trefniant cydweithio rhaid i’r egwyddorion allweddol canlynol fod yn berthnasol:

- cyn ymuno yn y cytundeb, paratoi asesiad risg
- ni fydd trefniadau o’r fath yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir gan y CHTh na’r Heddlu.
- prosiectau’n cael eu gwerthuso er mwyn asesu hyfywdra'r prosiect o safbwynt adnoddau, staffio ac arbenigedd.
- yr holl drefniadau’n cael eu cofnodi’n gywir
- cyfathrebu rheolaidd a phartneriaid eraill drwy gydol y prosiect er mwyn sicrhau’r canlyniad mwyaf llwyddiannus
- anghenion archwilio a rheoli'n cael eu bodloni
- gofynion Cyfrifyddu a threthiant, yn arbennig TAW, wedi’u deall ac yn cael eu dilyn y llawn.
- strategaeth ymadael priodol wedi’i gynhyrchu.

5.1.5 Rhaid i holl incwm a gwariant gydymffurfio gyda’r rheoliadau ariannol hyn a’r polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig lle mae’r CHTh neu’r PG y corff atebol. Ym mhob achos, rhaid i elfen y CHTh neu’r Heddlu o drefniadau gweithio ar y cyd gydymffurfio â’r rheoliadau ariannol hyn a’r polisïau a’r gweithdrefnau cysylltiedig.

## Partneriaethau

**Pam mae hyn yn bwysig?**

5.1.6 Mae’r term partneriaethau yn cyfeirio at grwpiau lle mae’r aelodau’n cydweithio fel partneriaid cyfartal gyda chyd weledigaeth ar gyfer maes polisi daearyddol neu faes â thema. Maent yn cytuno ar strategaeth y bydd pob partner yn cyfrannu tuag at ei darpariaeth. Diffiniad ymarferol defnyddiol o bartneriaeth o'r fath yw lle bydd y partneriaid:

- yn gyrff annibynnol fel arall;
- yn cytuno i gydweithio er mwyn cyflawni nod gyffredin;
- yn cytuno i greu strwythur, proses neu raglen sefydliadol ac i rannu gwybodaeth, risgiau a gwobrau.

5.1.7 Mae nifer y partneriaethau, yn lleol ac yn genedlaethol, yn ehangu mewn ymateb i ofynion llywodraeth ganolog a mentrau lleol. Mae hyn mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith bod potensial y gall gwaith partneriaeth:

- darparu amcanion strategol
- gwella ansawdd gwasanaethau a bod yn fwy cost effeithiol
- sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau prin
- ymdrin â materion sy'n croesi ffiniau asiantaethol a daearyddol a lle na all prif ffrydio rhaglenni ar ei ben ei hun fynd ddiwallu'r anghenion.

5.1.8 Mae partneriaethau fel arfer yn disgyn i dri phrif gategori: statudol, strategol a neilltuol.

**Statudol**

5.1.9 Partneriaethau a reolir drwy statud. Maent yn cynnwys e.e. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Lleol.

**Strategol**

5.1.10 Partneriaethau a sefydlir i ddarparu amcanion plismona craidd. Gallent fod ledled yr heddlu neu'n lleol.

**Neilltuol**

5.1.11 Fel arfer, trefniadau lleol anffurfiol a gytunir gan y swyddog heddlu sy'n arwain ar y mater yn lleol yw'r rhain.

**Cyd-destun**

5.1.12 Fel y disgrifir yn adran 10 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'n rhaid i'r Comisiynydd, wrth arfer ei swyddogaethau, dalu sylw i flaenoriaethau perthnasol pob awdurdod cyfrifol. Yn amodol ar y cyfyngiadau y gellid eu pennu ar ffynonellau nawdd annibynnol, mae comisiynwyr yn rhydd i rannu nawdd fel y maen nhw a'u partneriaid lleol yn ei weld yn briodol. Gall Comisiynwyr ymuno mewn cytundebau lleol am wasanaethau, yn unigol neu ar y cyd â phartneriaid lleol eraill, gan gynnwys cyrff heb fod yn gyrff plismona.

5.1.13 Pan mae'r CHTh yn gweithredu fel comisiynydd gwasanaethau, bydd y CHTh yn cytuno gyda phob darparwr ynghylch pa egwyddorion neu ganlyniadau sydd i'w darparu drwy gontract neu gytundeb grant. Gall y CHTh ddyfarnu grantiau trosedd ac anhrefn i gefnogi blaenoriaethau lleol. Nid yw bob amser yn angenrheidiol cynnwys amodau grant manwl yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar sut i wario'r arian. Mae'r grym i wneud grantiau trosedd ac anhrefn gydag amodau wedi'i gynnwys yn Adran 143 Deddf Gwrthgymdeithasol, Plismona a Throsedd 2014. Mae'r grym i wneud contractau am wasanaethau wedi'i amlinellu ym Mharagraff 14 Atodlen 1; a Pharagraff 7 Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

**Cyfrifoldebau'r CHTh**

5.1.14 Ystyried blaenoriaethau perthnasol partneriaid lleol wrth baratoi'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

5.1.15 Gwneud trefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gan yr Heddlu a darparwyr lleol.

**Cyfrifoldebau Prif Swyddogion**

5.1.16 Dilyn y canllaw o fewn y Fframwaith Partneriaethau ar y Cyd a Chydweithio.

5.1.17 Ymgynghori, mor gynnar â phosibl, â'r CCA a'r PSC er mwyn sicrhau bod trethiant a threfniadau cyfrifyddu eraill yn cael eu trin yn gywir.

5.1.18 Creu Memorandwm o Ddealltwriaeth neu gontract yn nodi'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer y bartneriaeth. Dylai'r PSG neu'r CCA lofnodi'r ddogfen hon (neu unigolyn arall sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol i lofnodi ar eu rhan).

## Cydweithio

5.1.19 O dan adrannau 22A a 22C Deddf yr Heddlu 1996 a gynhwyswyd o dan adran 89 Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae gan PG a Chomisiynwyr hawl cyfreithiol a dyletswydd i ymuno mewn trefniadau cydweithio. Mae hyn er mwyn gwella effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd un heddlu neu gomisiynydd neu fwy. Rhaid i unrhyw gydweithio sy'n berthnasol i swyddogaethau heddlu gael eu cytuno'n gyntaf gyda PG neu Gomisiynydd yr heddlu dan sylw.

5.1.20 Bydd y comisiynwyr yn dal eu PG yn atebol ar y cyd am unrhyw gydweithio y mae eu heddlu yn rhan ohono.

5.1.21 Rhaid trafod unrhyw gynigion o'r fath gyda'r PSC a'r CCA yn y lle cyntaf.

## 5.2 Nawdd Allanol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

5.2.1 Gall nawdd allanol fod yn ffynhonnell bwysig iawn o incwm, ond rhaid ystyried yr amodau ariannu'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau ac amcanion y CHTh. Bydd arian gan asiantaethau allanol yn darparu adnoddau ychwanegol i alluogi'r Comisiynydd a'r Heddlu i ddarparu eu gwasanaethau plismona. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, er bod y cwmpas ar gyfer ariannu allanol wedi cynyddu, mae nawdd o'r fath wedi'i gysylltu â manylebau tynn. Efallai na fydd yn ddigon hyblyg i'w gysylltu â chynllun cyffredinol y Comisiynydd.

5.2.2 Bydd prif ffynhonnell nawdd o'r fath ar gyfer CHTh yn tueddu i fod yn grantiau llywodraeth penodol, cyfraniadau ychwanegol gan awdurdodau lleol (e.e. ar gyfer SCCH, ANPR) a rhoddion gan drydydd parti (e.e. tuag at wariant cyfalaf). Bydd yr holl ffynonellau gwariant yn cael eu bancio gan y Comisiynydd ac fe'u priodolir i'r Comisiynydd.

**Cyfrifoldebau'r PG a'r CHTh**

5.2.3 Mynd ati i fynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd ar gyfer nawdd ychwanegol lle ystyrir bod hyn er budd y CHTh neu'r Heddlu.

5.2.4 Sicrhau yr ystyrir trefniadau nawdd cyfatebol a strategaethau ymadael cyn ymrwymo i gytundeb a bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn adlewyrchu'r gofynion hyn.

**Cyfrifoldeb y PSC a'r CCA**

5.2.5 Sicrhau y derbynnir ac y cyfrifir yn gywir am yr holl nawdd y bydd cyrff allanol yn ei hysbysu. Sicrhau bod yr holl hawliadau am arian yn cael eu gwneud erbyn y dyddiad angenrheidiol. Sicrhau bod unrhyw ofynion archwilio a nodir yn y cytundeb ariannu yn cael eu bodloni.

**Cyfrifoldebau'r PG**

5.2.6 Sicrhau mai dim ond er mwyn bodloni'r anghenion a'r amcanion plismona y ceir arian.

5.2.7 Sicrhau y cydymffurfir ag amodau allweddol ariannu ac unrhyw ofynion statudol ac y deellir Cyfrifoldebau'r corff sy'n atebol yn glir.

5.2.8 Sicrhau bod unrhyw amodau a roddir ar y Comisiynydd neu'r Heddlu mewn perthynas â nawdd allanol yn unol â pholisïau cymeradwy'r Comisiynydd. Os oes gwrthdaro, bydd angen mynd â hyn gerbron y Comisiynydd i'w ddatrys.

## 5.3 Gwaith ar gyfer Cyrff Allanol

**Pam mae hyn yn bwysig?**

5.3.1 Mae SCHTh a'r Heddlu yn darparu gwasanaethau ar gyfer cyrff eraill y tu allan i'w rwymedigaethau arferol a chodir tâl am hyn, e.e. hyfforddiant, gwasanaethau arbenigol. Dylid sefydlu trefniadau i sicrhau y bydd unrhyw risg cysylltiedig â'r gwaith yn cael ei leihau hyd yr eithaf ac nad yw gwaith o'r fath tu hwnt i'r grymoedd.

**Cyfrifoldebau'r PG**

5.3.2 Sicrhau bod cynigion ar gyfer cymorth â chost gysylltiedig. Sicrhau nad oes yr un contract yn cael ei gymorthdalu gan y Comisiynydd na'r Heddlu. Sicrhau, lle bynnag bosibl, y derbynnir taliadau cyn i'r gwasanaeth gael ei ddarparu fel nad yw'r Comisiynydd mewn perygl o ganlyniad i rwymedigaethau megis dyledion drwg.

5.3.3 Sicrhau bod trefniadau yswiriant priodol yn eu lle.

5.3.4 Sicrhau bod yr holl gontractau'n cael eu dogfennu'n gywir.

5.3.5 Sicrhau na fydd contractau o'r fath yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir gan y CHTh na'r Heddlu.

5.3.6 Bydd y trefniadau ar gyfer cyflenwi nwyddau a/neu wasanaethau yn cael eu

cymeradwyo yn unol â'r rheoliadau ariannol hyn, y Rheolau Sefydlog o Ran Contractau a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill.